



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Crynodeb o'r ymatebion:
Baratowyd gan Wavehill Ltd.**

Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

Mai 2020

Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestrdig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bryste, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, Llundain, N8 9AS

Manylion cysylltu:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Gwefan: www.wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets

Awduron yr adroddiad:

Hester Careless
Llorenc O'Prey
Mallika Kshatriya
Tony Jones
Oliver Allies

Dylid anfon unrhyw gwestiynau am yr adroddiad hwn yn gyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

Dyddiad y ddogfen: Mawrth 2020
Fersiwn: Terfynol

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	1
1 Cyflwyniad.....	5
2 Ymatebion gan Ymgyrchoedd.....	10
3 Y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.....	15
4 Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.....	23
5 Gwasanaeth Cyngori.....	28
6 Y Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi.....	31
7 Y Fframwaith Rheoleiddio.....	33
8 Y Cyfnod Pontio.....	37
9 Dull Dadansoddol.....	40
10 Y Gymraeg.....	43
11 Ystyriaethau Pwysig.....	46
Atodiad 1: Cwestiynau Ymgynghori.....	48
Atodiad 2: Ymatebion Sefydliadau.....	50
Atodiad 3: Ymatebion gan Ymgyrchoedd.....	54

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ddadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad [Ffermio Cynaliadwy a'n Tir](#). Mae'n rhoi crynodeb o'r sylwadau a'r safbwyntiau a ddaeth i law gan yr ymatebwyr ynghylch y cynigion.

Yr Ymatebion

Yn ystod yr ymgynghoriad, daeth cyfanswm o 3,322 o ymatebion i law. O blith y rhain, roedd 508 yn ymatebion unigryw gan unigolion a sefydliadau, a chyflwynwyd 2,816 o ymatebion a oedd yn perthyn i dair ymgyrch wahanol. Mae'r rheini a gyflwynodd ymatebion unigol yn cynrychioli ystod amrywiol o leisiau a safbwyntiau. Dywedodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r byd ffermio.

Ymatebion gan Ymgyrchoedd

Cafwyd ymatebion a oedd yn perthyn i ymgyrchoedd gan Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU), y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, ac Y Cerddwyr. Credai'r NFU y dylai'r cynigion geisio sicrhau sefydlogrwydd a pharhad, gan gynnwys o ran lefelau a threfniadau'r cymorth ariannol sydd ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir eraill.

Y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)

Drwyddi draw, mae'n ymddangos bod pobl ar y cyfan o blaid y fframwaith. I lawer, roedd y gefnogaeth hon yn amodol ar nifer o ffactorau. Teimlai rhai ymatebwyr y gallai'r fframwaith gynnwys cyfeiriadau amlycach at ganlyniadau penodol, gan gynnwys iechyd y pridd neu hyrwyddo'r Gymraeg. Teimlai eraill fod y fframwaith yn rhy rhagnodol a bod angen hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod ffermwyr a rheolwyr tir yn ymrwymo i'r dull a geir ynddo. Teimlai eraill wedyn nad oedd y fframwaith yn ddigon cefnogol nac yn rhoi digon o sylw i ddiogelu cyflenwadau bwyd drwy roi cymorthdaliadau tuag at gynhyrchu bwyd. Dyma oedd y gwrthwynebiad cryfaf i'r fframwaith.

Roedd ymatebwyr hefyd a gytunai â'r pwyslais ar gefnogi gweithgarwch, ynghyd â rhai a hoffai weld mwy o bwyslais ar ganlyniadau. Roedd pryderon cyffredinol am effaith taliadau SLM ar allu ffermwyr i wneud elw. At hynny, dylai'r fframwaith sicrhau ei fod yn hygyrch, yn enwedig i ffermwyr tenant a mathau eraill o reolwyr tir, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio ym maes coedwigaeth. At hynny, roedd pryderon am sut y byddai'r fframwaith yn cael ei roi ar waith, ac roedd ymatebwyr yn ansicr sut y byddai'r cynigion yn gweithio'n ymarferol.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

I lawer, dylai'r cynllun wobrwyo camau i 'greu' a 'chynnal' gweithgarwch SLM, a dylai flaenoriaethu sefydlogrwydd ariannol ffermwyr. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid capio'r taliadau er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei rannu'n deg, gyda phwyslais ar gefnogi ffermydd teuluol bychain yn hytrach na rheolwyr tir mawr. Teimlai rhai y dylai'r cymhwysedd fod yn gyfyngedig i reoli tir byw yn unig, ac na ddylai gynnwys rheoli tir segur, gan gynnwys dad-ddofi tir. Cymysg oedd y farn ynghylch gwobrwyo ffermwyr am ddarparu nwyddau cyhoeddus, ac ynghylch eu cymell i wneud hynny.

Gwasanaeth Cyngori

Roedd teimlad eang na ddylai'r Gwasanaeth Cyngori ddyblygu'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys gwaith Cyswllt Ffermio a Glastir. Credai nifer helaeth o'r ymatebwyr y byddai'r Gwasanaeth Cyngori'n cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r ddarpariaeth bresennol, er bod y cynigion yn dweud y byddai'n disodli'r gwasanaethau presennol. Roedd pryderon am gostau sefydlu a chynnal y gefnogaeth hon, a theimlai pobl y dylai'r gwasanaeth fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac unrhyw gorff rheoleiddio arall.

Y Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi

Roedd nifer helaeth o'r ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant a chadwyni cyflenwi wrth gefnogi sector amaethyddol iach. Roedd nifer helaeth o blaid annog partneriaethau a chydweithio lleol. Serch hynny, roedd pryderon y byddai gwario adnoddau cyfyngedig ar y diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi yn lleihau'r cymorth ariannol sydd ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir eraill. Cymysg wedyn oedd y farn ynghylch a ddylai'r fframwaith SLM fod yn berthnasol wrth roi cymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi.

Y Fframwaith Rheoleiddio

Pwysleisiodd nifer helaeth na ddylai unrhyw fframweithiau rheoleiddio yn y dyfodol fod yn feichus na chynyddu costau. At hynny, dylai unrhyw gamau gorfodi fod yn gymesur a dylid gweithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir i roi sylw i broblemau a'u datrys. Pwysleisiodd nifer helaeth na ddylai camau rheoleiddio amharu ar gystadleurwydd ffermwyr o'u cymharu â ffermwyr yng ngweddill y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

Y Cyfnod Pontio

Er bod y farn yn amrywio, mae'n ymddangos bod mwy o gefnogaeth dros gael cyfnod pontio hwy o bum mlynedd neu ragor. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod ansicrwydd Brexit yn creu heriau wrth geisio penderfynu ar natur a hyd addas i'r cyfnod pontio. Awgrymodd nifer y byddai cynlluniau peilot yn bwysig wrth ddatblygu a phrofi elfennau o'r cynigion cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ehangach. O'r tri opsiwn a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad, cyfeiriwyd amlaf at opsiwn A yn yr ymatebion. Fodd bynnag, ni wnaeth y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr grybwyll na chefnogi unrhyw un o'r tri opsiwn a amlinellwyd.

Dull Dadansoddol

O blith yr ymatebwyr a roddodd eu barn am y cynigion, roedd consensws cyffredinol bod y dull o asesu'r effaith yn ymarfer pwysig a gwerthfawr. Testun trafod o bwys oedd y pwyslais penodol a fyddai mewn unrhyw ddadansoddiadau o'r effaith, ac roedd gan wahanol ymatebwyr wahanol flaenoriaethau yn hyn o beth. Roedd un garfan o ymatebwyr, er enghraifft, yn awyddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 er mwyn asesu'r cynigion. Dywedodd eraill fod materion penodol, fel yr iaith neu effeithiau amgylcheddol, yn cael gormod o sylw yn y cynigion, neu'n cael sylw annigonol. Teimlai rhai wedyn fod y cynigion yn rhy gymhleth, a dymument weld dull symlach yn cael ei ddefnyddio er mwyn deall a dadansoddi effeithiau.

Y Gymraeg

Wrth roi sylw i effaith y cynigion ar y Gymraeg, roedd nifer helaeth yn cydnabod pwysigrwydd economïau gwledig ffyniannus, y byd amaeth, a ffermydd teuluol bychain wrth hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd hi'n ymddangos bod pryderon nad yw'r cynigion yn rhoi digon o gefnogaeth nac yn gwneud digon i warchod cymunedau lle defnyddir y Gymraeg yn helaeth. At hynny, roedd nifer helaeth o blaid darparu'r cynllun yn ddwyieithog.

Y Prif Ystyriaethau

Drwyddi draw, roedd pobl ar y cyfan yn cefnogi natur a chyfeiriad y cynigion. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth y mwyafrif yn amodol ar wahanol bethau. Roedd y problemau a godwyd yn amrywiol ac yn dueddol o ganolbwyntio ar fanylion y cynigion. Teimlai rhai ymatebwyr, er enghraifft, y dylai'r fframwaith SLM gynnwys canlyniadau mwy penodol, tra teimlai eraill y dylai fod yn fwy hyblyg ac yn llai rhagnodol. Teimlai eraill wedyn y dylid rhoi mwy o sylw i sut y byddai'r cynigion yn gweithio'n ymarferol.

Yn rhannol, roedd ystod o bryderon a ffactorau ehangach yn sail i farn ac argraffiadau'r ymatebwyr. Roedd yr ansicrwydd sylweddol yn sgil Brexit yn aml yn amharu ar farn pobl am y cynigion, ynghyd â'r atebion sy'n deillio ohonynt. Roedd cael sicrwydd ariannol yn bryder o bwys i nifer o ymatebwyr. At hynny, roedd mynd i'r afael â dirywiad yn yr amgylchedd naturiol yn bryder o bwys, ac roedd llawer o'r gefnogaeth i'r cynigion yn ddibynnol ar hyn.

Gwelwyd hefyd bod pobl yn dehongli prif elfennau'r cynigion mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Credai nifer helaeth y byddai'r Gwasanaeth Cynghori'n cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r ddarpariaeth bresennol, er enghraifft, er bod y cynigion yn awgrymu y byddai'n disodli'r gwasanaethau presennol.

Dyma rai o'r negeseuon cyffredinol sydd i'w gweld yn yr ymatebion:

- Mae angen mwy o eglurder ar rai o'r cynigion ac mae angen eu cyfathrebu'n well. Yn eu plith mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ogystal â'r fframwaith rheoleiddio a sut y byddai'r Gwasanaeth Cynghori'n cyd-fynd â'r gefnogaeth sy'n bodoli'n barod.

- Mae sicrwydd ariannol yn bryder o bwys yn yr ymatebion, ynghyd â'r gred bod sefydlogrwydd a pharhad yn bwysig yn wyneb ansicrwydd sylweddol. Roedd hyn yn aml yn sail i'r galw gan ymatebwyr am gyfnod pontio hwy.
- O'r safbwynt hwn, mae'n bwysig sicrhau bod y cynigion yn symleiddio ac yn lleihau'r baich biwrocraataidd a rheoleiddiol ar ffermwyr.
- Roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o ymgynghori a chydunio wrth ddatblygu'r cynigion.
- Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'n werthfawr treialu rhai o'r cynigion wrth ddatblygu a gweithredu polisiau a rhaglenni sy'n cefnogi'r sector.

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ddadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad [Ffermio Cynaliadwy a'n Tir](#). Mae'n rhoi crynodeb o'r sylwadau a'r safbwyntiau a ddaeth i law gan yr ymatebwyr ynghylch y cynigion.

1.1 Cefndir

Ers y bleidlais yn y refferendwm ym mis Mehefin 2016 i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried effaith y penderfyniad ar gymunedau, ffermwyr a rheolwyr tir eraill ledled Cymru.¹ Aeth Llywodraeth Cymru ati i edrych ar y ffordd orau i gefnogi ffermwyr a rhanddeiliaid amaethyddol eraill ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

I ddechrau, datblygodd Llywodraeth Cymru Raglen Rheoli Tir newydd a fyddai'n disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn gyfan gwbl. Roedd y cynigion yn cynnwys dau gynllun cyffredinol: cynllun Cadernid Economaidd a chynllun Nwyddau Cyhoeddus.

Yn haf a hydref 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y cynigion i ffermwyr, cymunedau gwledig, grwpiau amgylcheddol ac unigolion a chanddynt ddiddordeb yn y maes. Roedd ymgynghoriad [Brexit a'n Tir](#) yn gofyn am farn a safbwyntiau ystod o unigolion a sefydliadau. Cyflwynwyd cyfanswm o 12,203 o ymatebion, gan gynnwys 11,160 o ymatebion gan saith ymgyrch wahanol.

Yn gyffredinol, mynegodd yr ymatebwyr bryderon am y cynlluniau Cadernid Economaidd a Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig. Roedd cael gwared ar y Cynllun Taliad Sylfaenol yn pryderu nifer o ymatebwyr, a'r rheini'n cydnabod pa mor bwysig oedd y taliadau hyn i hyfywedd ffermydd a gallu ffermwyr i wneud bywoliaeth. Yn dilyn hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r [Crynodeb o'r ymatebion](#) gan amlinellu'r prif faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Yn sgil y farn a'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i *Brexit a'n Tir*, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddiwygio ei chynigion. Y brif uchelgais o hynny allan fyddai hyrwyddo ffermydd cynaliadwy sy'n cynhyrchu bwyd a nwyddau cyhoeddus ill dau, a hynny mewn system sy'n gwella lles ffermwyr, cymunedau a holl bobl Cymru. Byddai rheoli tir yn gynaliadwy yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cymru wrth gefnogi'r sector.

¹ Yn y ddogfen hon, defnyddiwn y termau "rheolwr tir" a "rheoli tir" i olygu ffermwyr, coedwigwyr ac unrhyw weithgarwch arall sy'n golygu defnyddio tir nad yw'n drefol ei natur i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau.


Roedd Llywodraeth Cymru'n awyddus i ganfod barn a safbwyntiau ffermwyr a chymunedau gwledig am y cynigion diwygiedig. Gwahoddwyd y rheini sydd â diddordeb mewn amaethyddiaeth a rheoli tir i gyflwyno'u sylwadau rhwng 9 Gorffennaf a 30 Hydref 2019. Roedd yr ymgynghoriad [Ffermio Cynaliadwy a'n Tir](#) yn gofyn ystod o gwestiynau i'r ymatebwyr am elfennau penodol yn y cynigion. Mae rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad i'w gweld yn [Atodiad 1](#). Daeth ymatebion i law ar-lein, drwy e-bost a thrwy'r post.

1.2 Yr Ymatebion

Mae'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cynrychioli ystod eang o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn amaethyddiaeth, mewn cymunedau gwledig ffyniannus, ac mewn cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol. Yn ystod yr ymgynghoriad, daeth cyfanswm o 3,322 o ymatebion i law. O blith y rhain, roedd 508 yn ymatebion unigryw gan unigolion a sefydliadau, a chyflwynwyd 2,816 o ymatebion a oedd yn perthyn i dair ymgyrch wahanol.

Mae'r rheini a gyflwynodd ymatebion unigol yn cynrychioli ystod o leisiau a safbwyntiau. Dywedodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r byd ffermio. O'r rheini a roddodd ddigon o wybodaeth, roedd 65.1 y cant yn ffermwyr neu'n fusnesau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag amaethyddiaeth. At hynny, cafwyd ymatebion gan grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio ym maes yr amgylchedd, sefydliadau'r trydydd sector, a rheolwyr tir eraill. Daeth nifer bychan o ymatebion i law gan randdeiliaid ehangach, gan gynnwys undebau llafur, sefydliadau'r sector cyhoeddus, a busnesau o'r gadwyn gyflenwi ehangach:

Ffigur 1.1: Cefndir yr Ymatebwyr




I weld rhestr lawn o'r sefydliadau a gyfrannodd at yr ymgynghoriad, ewch i [Atodiad 2](#).

Er bod y wybodaeth hon yn rhoi syniad inni o bwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad, nid oedd modd inni ganfod cefndir nifer sylweddol o'r ymatebwyr (41.1 y cant, n = 208). Roedd hyn yn rhoi heriau wrth geisio deall a oedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gynrychioladol, yn fras, o'r sector amaethyddol ledled Cymru ai peidio.

O blith yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ffermwyr, roedd 42.6 y cant yn cadw defaid. Dywedodd 30.0 y cant arall fod ganddynt ffermydd cymysg, gyda chyfuniad o wartheg eidion, defaid a gwartheg godro. Roedd nifer llai o'r ymatebwyr yn cynrychioli ffermwyr a oedd yn cadw gwartheg eidion, yn cadw anifeiliaid eraill, yn godro, neu'n ymwneud â garddwriaeth yn unig.

Ffigur 1.2: Prif Weithgarwch y Fferm



Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr o'r gymuned ffermio eu bod yn hawlio arian o dan y Cynllun Taliad Sylfaenol (85.2 y cant, n = 173). Dywedodd chwarter yr ymatebwyr fod ganddynt hawl i bori ar dir comin (24.9 y cant, n = 50), a dywedodd 19.3 y cant eu bod yn ffermwyr tenant (n = 38).

1.3 Ymatebion gan Ymgyrchoedd

Cafwyd 2,816 o ymatebion gan dair ymgyrch wahanol. Anogodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ac Y Cerddwyr eu haelodau i gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad. Datblygodd y tri sefydliad ymateb parod yn cyflwyno'r materion yr oeddent am eu codi. Anogodd y sefydliadau eu haelodau i gyflwyno'r testunau parod hyn, ac mae'r rhain i'w gweld yn [Atodiad 3](#). Mae dadansoddiad manylach o'r materion o bwys a godwyd yn ymatebion yr ymgyrchoedd hyn i'w gweld yn y [bennod nesaf](#).

Tabl 1.1: Ymatebion gan Ymgyrchoedd

Ymgyrch	Ymatebion
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru	857
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar	1,889
Y Cerddwyr	70

1.4 Dull Dadansoddol

Er mwyn deall y materion a'r themâu a godwyd gan yr ymatebwyr, ym mis Hydref 2019 cafodd Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol, ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal dadansoddiad o'r ymatebion. Roedd y gwaith dadansoddi'n ceisio deall a mapio'r ystod o farn a safbwyntiau a roddodd yr ymatebwyr am y cynigion.

Creodd yr ymatebion ystod o wybodaeth ansoddol. Roedd yr holiadur ar-lein, er enghraifft, yn gofyn wyth cwestiwn i ymatebwyr am eu barn am effaith bosibl cynigion penodol. Yn y cyfamser, cyflwynodd ymatebwyr eraill eu barn mewn llythyron a negeseuon e-bost, gan grynhoi eu teimladau cyffredinol am y cynigion.

Er mwyn dadansoddi'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr, cynhaliodd yr awduron ddadansoddiad manwl o'r cynnwys. Mae'r dull hwn yn mynd ati'n systematig i edrych ar bob ymateb gan amlygu'r themâu a'r materion a godir. O'r dadansoddiad hwn, mae modd i'r tîm wedyn edrych ar ba mor gyffredin yw barn a safbwyntiau penodol.

Rydym wedi ceisio cynnwys a chrynhai'r materion a godwyd yn ymatebion yr ymgyrchoedd mewn manau perthnasol yn y dadansoddiad ehangach. Fodd bynnag, nid ydym wedi cynnwys ymatebion yr ymgyrchoedd wrth ddadansoddi pa mor gyffredin yw safbwyntiau, er enghraifft wrth wneud asesiad sy'n dweud bod 'mwyafrif yr ymatebwyr yn credu hyn'. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dylanwad ymatebion yr ymgyrchoedd yn gymesur wrth gydbwysu'r safbwyntiau.

1.5 Cyfyngiadau

Mae'n bwysig nodi bod nifer o gyfyngiadau sy'n berthnasol i'r dadansoddiad hwn. Nid yw'r ymatebwyr a gyflwynodd eu barn a'u safbwyntiau o anghenraid yn gynrychioladol o'r gymuned ehangach o ffermwyr, sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb yn y cynigion. Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried bod yr ymatebion yn rhoi syniad inni o farn, teimladau a safbwyntiau'r gymuned yn gyffredinol, yn hytrach nag yn ddatganiad diamod.

Oherwydd y tebygolrwydd cryf o hunan-ddethol, nid ydym wedi ceisio dweud faint o ymatebwyr a oedd â barn benodol. Dull ansoddol a ddefnyddiwyd, gyda'r nod o ddeall yr ystod o themâu a materion o bwys a godwyd gan yr ymatebwyr, yn ogystal â'r rhesymau dros arddel safbwyntiau penodol. Mae gwymbodaeth o'r fath yn cynnwys meysydd posibl lle'r oedd gwahanol grwpiau o ymatebwyr yn cytuno ac yn anghytuno â'i gilydd ill dau.

Wrth ddehongli'r cydbwysedd barn, rhaid gwneud hynny hefyd yng nghyd-destun y cwestiynau a ofynnwyd. Ni wnaeth yr ymatebwyr ateb bob cwestiwn, ac ni roddodd rhai ddigon o wybodaeth i wybod beth yn union oedd eu barn. Mae'r termau ansoddol a ddefnyddir i ddisgrifio pa mor gyffredin oedd barn yn berthnasol i'r rheini a atebodd gwestiwn penodol yn unig. Gan hynny, ni ellir tybio'u bod yn cyfeirio mewn termau rhifol at gyfanswm nifer y bobl a'r sefydliadau a ymatebodd, nac at y gymuned yn gyffredinol yng Nghymru.

O roi'r cyfan at ei gilydd, dylid dehongli'r dadansoddiad hwn fel un sy'n dangos ystod barn yr ymatebwyr yn unig, yn hytrach na pha mor gyffredin yw'r farn honno yn y gymuned yn gyffredinol.

2 Ymatebion gan Ymgyrchoedd

Cafwyd cyfanswm o 2,816 o ymatebion gan dair ymgyrch wahanol. Mae'r adran hon yn amlinellu'n gryno y materion o bwys a godwyd gan bob ymgyrch. Mae testun llawn ymateb pob ymgyrch i'w weld yn [Atodiad 3](#).

Crynodeb o'r Materion a Godwyd gan Ymatebion yr Ymgyrchoedd

- Dylai'r cynigion ceisio cynnal sefydlogrwydd a pharhad, gan gynnwys o ran lefelau a threfniadau'r cymorth ariannol sydd ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir eraill.
- Mae'r rheini sy'n dymuno cynnal a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt, gan gynnwys ecosystemau sy'n cefnogi bywyd adar, ar y cyfan yn croesawu'r pwyslais yn y cynigion ar hyrwyddo cynaliadwyedd.
- I ddefnyddwyr tir ehangach fel cerddwyr, dylid fframio'r gefnogaeth yn y dyfodol mewn ffordd sy'n annog ffermwyr i fynd y tu hwnt i'r gofynion statudol, gan wella mynediad a llwybrau'n barhaol.
- Mae ymatebion yr ymgyrchoedd yn dangos pa mor amrywiol yw'r dehongliadau a goblygiadau'r cynigion i wahanol grwpiau o randdeiliaid.

2.1 Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

Cafodd yr ymgyngoriad 857 o ymatebion a oedd wedi'u cydlynu gan yr NFU. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn byw yng Nghymru, a chyflwynwyd 53 o ymatebion yn Gymraeg. Anogwyd yr ymatebwyr i gyflwyno testun parod a hwnnw'n amlinellu'r prif faterion yr oedd yr aelod o'r NFU am eu codi. At hynny, anogwyd yr ymatebwyr i gynnwys rhagor o wybodaeth, gan gynnwys beth roedd ffermio'n ei olygu iddynt hwy a'r modd yr oeddent yn cyfrannu at eu cymuned leol.

2.1.1 Prif Negeseuon yr Ymgyrch

Thema gyffredinol yr ymgyrch hon oedd pwysigrwydd sefydlogrwydd a pharhad i'r sector. Byddai'r rhain yn galluogi ffermwyr i ddygymod â'r ansicrwydd a'r risgiau ehangach a fydd yn dod yn sgil perthnasau masnachu newydd â gweddill y byd a hinsawdd sy'n newid.

Credai'r ymgyrch hon y gallai'r cynigion achosi mwy o ansefydlogrwydd ac amharu ymhellach ar ffermwyr, yn hytrach na lliniaru'r sefyllfa. Roedd yr ymatebion yn pwysleisio bod angen gwerthuso'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn llawn er mwyn sicrhau y gallai gyflawni'r un canlyniadau, neu ganlyniadau gwell, na'r Cynllun Taliad Sylfaenol. O'r safbwynt hwn, dylai'r cynigion sicrhau bod ffermwyr yn cael lefelau tebyg o gymorth ariannol unwaith y daw'r Cynllun Taliad Sylfaenol i ben.

Yn yr un modd, credai'r ymgyrch y gallai elfennau eraill y cynigion wanbau'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir. O'r safbwynt hwn, er enghraifft, byddai'r Gwasanaeth Cynghori...

...yn galw am lawer o adnoddau, yn fiwrocraidd, ac yn achosi oedi. Mae'n hanfodol bod cynlluniau'r dyfodol yn syml ac yn ymarferol i ffermwyr allu gwneud cais, ac yn syml ac yn ymarferol i'w rhoi ar waith. Dylid ceisio sicrhau bod y costau rheoli, y costau gweinyddol a'r costau cynghori mor isel ag y bo modd.

Templed Ymateb Ymgyrch yr NFU

Roedd yr ymgyrch hefyd yn pryderu y byddai'r cynigion yn cynyddu costau'r trafodiadau a'r baich rheoleiddiol a fyddai'n wynebu ffermwyr. Credai'r ymgyrch y byddai hyn yn gwneud cynnyrch Cymru'n llai cystadleuol, nid yn unig yng ngweddill y byd ond hefyd o fewn marchnad senl y Deyrnas Unedig:

Rhaid ariannu polisi Llywodraeth Cymru yn ddigonol er mwyn sicrhau twf cynaliadwy yn y sector bwyd a ffermio, gan gefnogi ein ffermwyr i greu bwyd o ansawdd da i safonau o'r radd flaenaf, a chynnal a gwella ein hamgylchedd a chyflawni ein rhwymedigaethau newid hinsawdd ar yr un pryd. Rhaid i bolisi'r dyfodol sicrhau bod ffermio Cymru'n parhau'n gystadleuol yn y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd ac yn fyd-eang.

Templed Ymateb Ymgyrch yr NFU


2.1.2 Gwybodaeth Ychwanegol

Ynghyd â'r testun parod a grëwyd gan yr NFU, anogwyd yr ymatebwyr i roi rhagor o wybodaeth am eu barn am rôl ffermio a'r modd yr oeddent yn cyfrannu at y gymuned leol. Cyflwynodd yr ymatebwyr yn aml baragraff heb ei strwythuro yn yr ohebiaeth a hwnnw'n dangos pa fath o ffermio'r oeddent yn ei wneud ac yn ychwanegu sylwadau neu farn ehangach am y cynigion. Er mwyn edrych ar y themâu a'r materion a godwyd, aethom ati i edrych ar sampl ar hap o 248 o ymatebion.² Dadansoddwyd y rhain yn systematig, gan amlygu gwybodaeth o bwys ac unrhyw faterion ychwanegol a godwyd.

Roedd yr ymatebwyr yn aml yn disgrifio prif weithgarwch eu fferm. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd bod ganddynt ffermydd cymysg, sef bod ffermydd neu fusnesau'r ymatebwyr yn ymwneud ag ystod o weithgarwch (39.5 y cant, n = 98). Roedd hyn yn aml yn cynnwys cadw gwartheg eidion a defaid, ond hefyd foch neu ieir ynghyd â gweithgarwch arall mewn rhai achosion. Ni roddodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr ddigon o wybodaeth i wybod beth oedd eu prif weithgarwch (38.7 y cant, n = 96). Dywedodd nifer llai o ymatebwyr mai defaid, godro, gwartheg eigion a ffermio â'r oedd eu prif weithgarwch:

² Mae hyn yn cynrychioli 28.9 y cant o'r holl ymatebion a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgyrch. Penderfynwyd nad oedd angen cynnal arolwg llawn o'r sylwadau heb eu strwythuro yn yr ymatebion hyn, gan y byddai sampl ar hap yn rhoi darlun cyflym o'r materion a godwyd.

Ffigur 2.1: Y Prif Weithgarwch Ffermio yn Ymatebion yr NFU



Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd roi rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dweud beth roedd ffermio yn ei olygu iddynt hwy. Yn aml cafwyd datganiadau angerddol am gyfraniad pwysig amaethyddiaeth wrth sicrhau bod cymunedau gwledig yn parhau'n rhai byw. O'r safbwyntiau hyn, mae cysylltiad agos rhwng iechyd y sector amaethyddol a chryfder economaidd ehangach y cymunedau gwledig lle mae'r ffermwyr yn byw. At hynny, credai'r ymatebwyr fod cysylltiad agos iawn rhwng amaethyddiaeth a gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y ffordd wledig o fyw:

Ffermio Cymru yw asgwrn cefn ein gwlad hoff. Mae'n rhoi cymaint nid yn unig i economi Cymru, ond i'n hunaniaeth ddiwylliannol a phwy ydym fel cenedl.

Ffermwr Cymysg

Mae cymunedau gwledig ffyniannus yn rhan hanfodol o wead y Gymru wledig ac mae amaethyddiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig wrth gefnogi holl elfennau'r cymunedau hyn. Mae diwylliant ac iaith Cymru wedi'u plethu yn y busnesau hyn ac yn eu cefnogaeth i'r economi wledig.

Ffermwr Organig

Fel yn nhestun parod yr NFU ei hun, roedd pryder i'w weld yn yr ymatebion heb eu strwythuro y byddai lleihau lefelau cyffredinol y cymorth ariannol yn effeithio'n negyddol ar y sector ac ar gymunedau'n ehangach. Yn y sylwadau heb eu strwythuro, anogwyd yr ymatebwyr i ddatgan faint o bobl roeddent yn eu cyflogi a nifer y busnesau eraill yr oeddent yn gweithio gyda hwy mewn cadwyni cyflenwi ehangach. Achubodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i ddangos yr effaith y gallai gostyngiad sylweddol yn y cymorth ariannol ei chael ar weithwyr a busnesau eraill:

Er bod ein busnes ffermio'n cael arian dan y Cynllun Taliad Sylfaenol, rhaid inni bwysleisio nad yw'r arian hwn yn aros yn ein busnes. Yn hytrach mae'n cael ei ailddosbarthu drwy'r gymuned leol drwy'r defnydd o gontractwyr, milfeddygon a chyflenwyr lleol eraill.

Ffermwr Godro

Yr hyn a oedd yn amlwg yn yr ymatebion oedd natur fregus y sefyllfa, sef rhywbeth a deimlai nifer am ddyfodol eu ffermydd a'u busnesau. Pryderai rhai ymatebwyr fod y risgiau a'r ansicrwydd yr oedd eu busnesau'n eu hwynebu yn sylweddol ac yn cynyddu. Dywedodd rhai eu bod yn teimlo bod eu busnesau eisoes yn agos iawn at fod yn anghynladwy yn ariannol, a bod y cymorth y maent yn ei gael ar hyn o bryd drwy'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn hollbwysig er mwyn iddynt oroesi'n ariannol. Thema a chanddi gysylltiad agos â'r ansicrwydd hwn oedd effaith hynny ar les ffermwyr, eu teuluoedd, a chymunedau'n ehangach:

Bob mis byddwn ni'n talu sieciau i o leiaf 30 o fusnesau neu ddarparwyr gwasanaethau lleol eraill a rhaid imi ddweud yn blwmp ac yn blaen fy mod yn amau a fyddwn yn gallu parhau i gefnogi'r economi leol yn y ffordd yma [yn y dyfodol]...

Ffermwr Cymysg

Mae baich rheoleiddio i'w deimlo'n drwm ar ffermwyr, mae'n achosi straen a gorbryder, ac mae'n tanseilio'u hyder yn y busnes.

Ymateb Ymgyrch

I fynd i'r afael â'r ansicrwydd a'r heriau y maent yn eu hwynebu, ac i liniaru'r rheini, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at brosiectau yr oeddent wedi bod yn rhan ohonynt er mwyn arallgyfeirio i gael incwm. Crybwyllodd bron i 18 y cant o'r ymatebwyr brosiectau penodol, a'r meysydd mwyaf poblogaidd oedd twristiaeth, ynni adnewyddol a dofednod. Ar brydiau, teimlai'r ymatebwyr hynny a oedd wedi arallgyfeirio i gael incwm bod hynny'n angenrheidiol gan nad oedd incwm ffermio ynddo'i hun yn ddigon i wneud bywoliaeth.

Gofynnodd yr NFU hefyd i ymatebwyr drafod cyfraniad eu teuluoedd at y gymuned. Dywedodd chwarter yr ymatebwyr eu bod ar hyn o bryd yn ymwneud â'u Clwb Ffermwyr Ifanc, neu wedi gwneud yn y gorffennol. At hynny, dywedodd cyfran fawr o'r ymatebwyr eu bod yn cyfrannu at eu cymunedau mewn ffordd swyddogol, gan gynnwys fel llywodraethwyr ysgolion neu ar gynghorau lleol.

Gyda'i gilydd, roedd y sylwadau a'r safbwyntiau heb eu strwythuro gan yr ymatebwyr unigol yn dueddol o ddarlunio ac atgyfnerthu'r pryderon a'r materion a godwyd yn ymateb parod yr NFU. Y thema amlycaf ym mwyafrif yr ymatebion heb eu strwythuro oedd pwysigrwydd parhad a sefydlogrwydd, a'r pryderon am sefyllfa ariannol fregus ffermydd a busnesau yn sail i'r safbwynt hwnnw.

2.2 Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

Cafodd yr ymgynghoriad hefyd 1,889 o ymatebion drwy ymgyrch gan aelodau'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB). Ymhlith y rhain roedd 788 o ymatebion gan drigolion o'r tu allan i Gymru.

Roedd yr ymgyrch ar y cyfan yn cefnogi'r cynigion, gan gynnwys y pwyslais ar hyrwyddo cynaliadwyedd. Cyfeiriodd yr ymgyrch at bwysigrwydd cynnal ac adfer cynefinoedd ac ecosystemau bywyd gwyllt. Croesawyd y pwyslais ar hyrwyddo cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac annog ffermwyr i ddarparu nwyddau cyhoeddus. At hynny, tynnodd yr ymgyrch sylw at werth a photensial rhoi cymorth ar ffurf cyngor er mwyn helpu ffermwyr a rheolwyr tir i ddatblygu arferion mwy cynaliadwy.

2.3 Y Cerddwyr

Daeth deg a thrigain o ymatebion i law gan gymdeithas Y Cerddwyr. Sefydliad elusennol yw hwn sy'n ceisio sicrhau a gwella mynediad cyhoeddus i dir, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth o fanteision bod yn yr awyr agored.

Roedd pwyslais yr ymgyrch hon ar sut y gallai'r cynnig sicrhau bod ffermwyr a rheolwyr tir eraill yn cydymffurfio â deddfwriaeth Hawliau Tramwy a Mynediad. At hynny, teimlai'r ymgyrch y gallai'r cynigion wneud mwy, gan roi cefnogaeth mewn ffordd a fyddai'n annog ffermwyr i wneud mwy na'r gofynion statudol presennol, gan gyflwyno gwelliannau parhaol fel gwella llwybrau a mynediad. At hynny, galwodd yr ymgyrch am gyflwyno system fonitro a fyddai'n galluogi'r cyhoedd i roi gwybod am achosion o beidio â chydymffurfio.

3 Y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Crynodeb o'r Cynigion

Un o brif elfennau'r cynigion yw'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae hwn yn cyflwyno'r egwyddorion a fydd yn sail ac yn sylfaen i'r egwyddorion ehangach, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae cynaliadwyedd yn hyn o beth yn golygu ystod o ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd â chysylltiad agos ag arferion rheoli tir. O ran y syniad y tu ôl iddo, nod cynaliadwyedd yw sicrhau bod modd ateb anghenion y presennol heb danseilio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r egwyddor o gynaliadwyedd fod yn sail i'r gefnogaeth a roddir yn y maes hwn yn y dyfodol. Mae hyn yn adlewyrchu adborth o'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir*, tra'i fod hefyd yn gyson â fframwaith deddfwriaethol ehangach Cymru. Mae hyn yn cynnwys y dyheadau a'r darpariaethau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Cwestiwn yr Ymgynghoriad

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy. At hynny, roedd y cwestiwn yn gofyn i'r ymatebwyr ystyried a oedd strwythur a ffocws y fframwaith yn ddefnyddiol ai peidio, ac a oeddent yn adlewyrchu cyfraniad cyffredinol ffermwyr at ganlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Roedd gan yr ymgynghoriad ddiddordeb hefyd mewn gwybod beth oedd barn yr ymatebwyr am sut y disgrifiwyd canlyniadau SLM, a oedd hi'n iawn rhoi pwyslais ar ganlyniadau amgylcheddol wrth ddarparu ffrydiau incwm, ac a fyddai fframwaith polisi arall yn fwy priodol.

Crynodeb o'r Ymatebion

- Teimlai rhai ymatebwyr y gallai'r fframwaith gynnwys cyfeiriadau amlycach at ganlyniadau penodol, gan gynnwys iechyd y pridd neu hyrwyddo'r Gymraeg.
- Teimlai eraill fod y fframwaith yn rhy rhagnodol a bod angen hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod ffermwyr a rheolwyr tir yn ymrwymo i'r dull a geir ynddo.
- Teimlai eraill wedyn nad oedd y fframwaith yn ddigon cefnogol nac yn rhoi digon o sylw i ddiogelu cyflenwadau bwyd drwy roi cymorthdaliadau tuag at gynhyrchu bwyd. Dyma oedd y gwrthwynebiad cryfaf i'r fframwaith.
- Roedd ymatebwyr hefyd a gytunai â'r pwyslais ar gefnogi gweithgarwch, ynghyd â rhai a hoffai weld mwy o bwyslais ar ganlyniadau.
- Roedd pryderon cyffredinol am effaith taliadau SLM ar allu ffermwyr i wneud elw.
- At hynny, dylai'r fframwaith annog a sicrhau mynediad, yn enwedig i ffermwyr sy'n denantiaid a mathau eraill o reolwyr tir, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio ym maes coedwigaeth.

- Roedd pryderon hefyd am sut y byddai'r fframwaith yn cael ei roi ar waith, ac roedd ymatebwyr yn ansicr sut y byddai'r cynigion yn gweithio'n ymarferol.
- Drwyddi draw, mae'n ymddangos bod pobl ar y cyfan o blaid y fframwaith SLM. I lawer, roedd y gefnogaeth hon yn amodol ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y rheini a amlinellir uchod.

3.1 Dull Fframwaith

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai cyflwyno'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn gam cadarnhaol. O'r safbwynt hwn, roedd y pwyslais ar gynaliadwyedd yn bwysig, ac roedd y fframwaith yn cydnabod ac yn hyrwyddo'r rôl bwysig sydd gan ffermwyr a rheolwyr tir eraill wrth gefnogi canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol:

Rwy'n canmol Llywodraeth Cymru am gynnig symud tuag at system gymorthdaliadau sy'n gwobrwyo creu manteision cyhoeddus, yn hytrach na gwobrwyo pobl sy'n berchen ar dir... Rwy'n gryf o blaid y cynlluniau i wobrwyo ffermwyr a rheolwyr tir eraill gyda ffrydiau incwm am gymryd camau i wella manteision ecolegol, yn hytrach na thalu'u costau'n unig. Rwy'n cytuno'n gryf y dylai'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy fod yn hyblyg ac y dylai ganolbwyntio ar ganlyniadau, yn hytrach na bod yn rhagnodol.

Unigolyn

Yn rhan o'r ymatebion hyn, credai rhai ymatebwyr nad oedd y fframwaith SLM yn gwneud digon. Pryderai nifer sylweddol o ymatebwyr, er enghraifft, nad oedd manteision a chanlyniadau'r fframwaith SLM arfaethedig yn rhoi sylw i holl ystod y cyfraniadau a wneir gan y gymuned ffermio. Credai ymatebwyr fod y meysydd canlynol, ymhlith eraill, yn bwysig, ond nad oedd digon o sylw iddynt yn y fframwaith:

- Iechyd y pridd
- Bioamrywiaeth
- Lles anifeiliaid
- Gwarchod bridiau brodorol
- Ffermio organig
- Bywyd cymunedol
- Manteision ieithyddol
- Manteision cymdeithasol, economaidd ac iechyd ehangach

Yn hyn o beth, credai'r ymatebwyr y dylai'r cynigion gyfeirio'n fwy eglur at faterion ac arferion pwysig sy'n berthnasol i reoli tir yn gynaliadwy:

Nid ydym yn anghytuno â'r manteision sydd wedi'u rhestru, ond teimlwn fod bylchau yma a chyfleoedd yn cael eu colli. Byddem yn erfyn ar y rheini sy'n drafftio'r polisi yn y dyfodol i gefnogi ac i gyfeirio'n benodol ac yn fanylach at 'bryfed peillio'. Rydym yn synnu nad yw iechyd a gwydnwch y pridd yn fantais rheoli tir 'lefel uchaf', ac ystyried yr adroddiadau diweddar bod dirywiad pridd yn broblem mor helaeth. Mae ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill mewn sefyllfa unigryw i wyrdroi'r dirywiad presennol yn iechyd ein pridd.

Gweithgor Tasglu Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio

Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr eraill yn awyddus i sicrhau nad yw'r fframwaith SLM yn rhy rhagnodol ei natur, fel y bu'r profiad gyda chynlluniau blaenorol, gan gynnwys Glastir. Teimlai ymatebwyr y byddai angen digon o hyblygrwydd yn y cynllun er mwyn sicrhau y gellid ei deilwra i gyd-fynd â chryfderau penodol pob fferm neu faes. Yn ogystal â hyn, roedd y defnydd o Ddatganiadau Ardal ar gyfer cynllunio gofodol yn flaenoriaeth i'r ymatebwyr hynny a oedd am weld mwy o hyblygrwydd yn rhan o'r cynllun:

Y ffordd i fwrw ymlaen gydag unrhyw gynllun yw drwy bartneriaeth a chydweithio. Dylai'r cynllun fod yn hyblyg, heb fod yn rhagnodol. Bydd angen i bawb sy'n rhan o hyn newid eu hagweddau'n sylfaenol. Mae Glastir wedi bod yn rhagnodol o'r dechrau'n deg, ac wedi dod yn fwy anhyblyg wrth i'r blynyddoedd fynd heibio.

FWAG Cymru

3.2 Rhoi Cymhorthdal ar gyfer Cynhyrchu Bwyd

Teimlai nifer o ymatebwyr y dylai'r cynigion roi mwy o ffocws ar ddiogelu cyflenwadau bwyd ac ar roi cymhorthdal ar gyfer cynhyrchu bwyd. I'r ymatebwyr hyn, roedd hyn yn golygu rhyw fath o gydnabyddiaeth a thaliad am gynhyrchu bwyd. Roedd rhai o'r ymatebwyr a gredai hyn yn pryderu bod y Cynllun Taliad Sylfaenol yn dod i ben, gan ddadlau bod hwn wedi rhoi sicrwydd economaidd i ffermwyr Cymru ers blynyddoedd lawer. Hebdo, credai llawer na fyddai ffermydd Cymru'n gallu bod mor gystadleuol.

Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y cynigion yn gwneud digon i sicrhau bod darparu nwyddau cyhoeddus a chynhyrchu bwyd yn cyd-fynd â'i gilydd. Gallai hyn olygu bod ffermwyr yn gorfod dewis rhwng y naill a'r llall. Yn y cyfamser, teimlai ymatebwyr eraill y byddai'r newid pwyslais a'r symud tuag at ddarparu nwyddau cyhoeddus yn golygu na fyddai rhai ffermydd a busnesau yn hyfyw:

Mae gan y fferm ar hyn o bryd 1,100 o ŵyn benyw a 70 o fuchod sugno. Yr anifeiliaid hyn sy'n creu'r amgylchedd rydyn ni'n gweithio ynddo bob dydd. Ond heb gefnogaeth ystyrion go brin y bydd y busnes yn hyfyw yn y dyfodol. Bydd y cynllun hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar fy nyfodol, a rhaid cael rhyw fath o gymorth ystyrion i'n helpu ni i barhau i ffermio da byw ar fynyddoedd Cymru. Ni fyddai cynllun amgylcheddol ar ei ben ei hun, heb dda byw, yn gweithio.

Ffermwr Cymysg

Bydd rhoi pwyslais ar ganlyniadau amgylcheddol wrth roi ffrydiau incwm yn hwb i gynaliadwyedd, ond mae angen i hyn fod yn ddigonol er mwyn cydbwysu'r colledion o ffermio mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy'n amgylcheddol. Ni fydd gwella effeithlonrwydd busnesau amaethyddol mewn rhai ardaloedd yn gwneud iawn am y colledion a ddaw o farchnad wan. Mae angen i egwyddorion SLM hefyd gydnabod y bwllch yn y system a fydd yn deillio o gael deddfwriaeth amgylcheddol gryfach. Byddwn yn awgrymu bod y cynnig gwreiddiol, sef cael ffrwd incwm arall i wneud iawn am fethiant y farchnad, yn opsiwn gwell na rhoi'ch holl wyau ym masged SLM.

Ffermwr Gwartheg Eidion

3.3 Hygyrchedd

Thema o bwys a godwyd gan yr ymatebwyr oedd pwysigrwydd hygyrchedd y cynigion, a hynny i grwpiau penodol yn y sector. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn awyddus i sicrhau nad oedd y cynigion yn rhoi grwpiau penodol o dan anfantais. Ni ddylid anghofio am ffermwyr tenant, er enghraifft, wrth roi taliadau i berchnogion tir, na'u cosbi os yw'r tirlfeddiannwr wedi rheoli'r tir yn wael yn y gorffennol. At hynny, dywedodd ymatebwyr mai un maes y gallai'r cynigion roi sylw iddo yw'r diffyg cydbwysedd rhwng tirlfeddianwyr a ffermwyr tenant.

Roedd mynediad i fand eang yn faes arall sy'n ymwneud â hygyrchedd a gafodd sylw gan yr ymatebwyr. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y diffyg band eang a signal ffôn symudol dibynadwy mewn cymunedau gwledig, gan alw am ffyrdd gwahanol o anfon gwybodaeth, am ystod o bwyntiau mynediad hygyrch i'r cynllun, ac am sianeli gwahanol i'w defnyddio i gael cymorth. Tynnodd lleiafrif sylweddol o'r ymatebwyr sylw at yr angen i ystyried cymunedau llai digidol eu natur wrth gynllunio unrhyw gynllun newydd, gan ddarparu dulliau all-lein o gael mynediad i'r cynllun a chael cymorth.

3.4 Pryderon am roi'r cynllun ar waith

Cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch sut y byddai'r cynllun arfaethedig yn gweithio ar lawr gwlad, gan gyfeirio at ddiffyg ymarferoldeb drwy'r holl ddogfen ymgynghori a gorddibyniaeth ar ddelfrydau haniaethol, cysyniadol. Yn benodol, cwestiynodd rhai ymatebwyr pa mor rhwydd fyddai mesur yn gywir rai o'r canlyniadau SLM a geir yn y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys ansawdd aer, gan ofyn felly ar ba sail y gellid cyfiawnhau gwobrwyo pobl am hyn.

Yn gysylltiedig â'r thema flaenorol, teimlai nifer sylweddol o'r ymatebwyr nad oedd digon o eglurder na manylion yn y fframwaith. Roedd cryn ddryswch hefyd ynghylch y diffiniadau o dermau a chysyniadau pwysig yn y ddogfen ymgynghori, fel 'rheolwyr tir eraill' a 'chynaliadwyedd'. At hynny, teimlai rhai ymatebwyr fod yr iaith a ddefnyddiwyd i ddisgrifio strwythur y cynllun taliadau yn aneglur, yn arbennig felly ai ar sail 'camau gweithredu' ynteu 'ganlyniadau' y byddai taliadau'n cael eu gwneud:

Gallai strwythur y manteision, y canlyniadau a'r camau gweithredu fod yn ddefnyddiol, ond mae angen gwneud gwaith manylach, yn enwedig gan nad yw rhai o'r manteision a'r canlyniadau wedi'u diffinio'n glir.

Unigolyn

Ymddengys bod hyd y ddogfen ymgynghori'n rhwystr i rai ymatebwyr, o ran yr amser y byddai angen ei dreulio'n ei darllen. Dywedodd ymatebwyr a roddodd sylwadau am ddiffyg hygyrchedd y ddogfen ymgynghori nad oedd cymheiriaid iddynt wedi ymateb i'r ymgynghoriad am y rhesymau hyn. Mae hyn yn codi rhagor o bryderon ynghylch i ba raddau y gellir tybio bod yr ymatebion yn gynrychioladol o'r sector:

Mae'r iaith yn y ddogfen yn anghyson ac ar adegau'n gamarweiniol. Mae angen rhagor o eglurder i sicrhau bod y gair 'ffermwr' yn cynnwys 'coedwigwr' a 'rheolwr tir', bod 'cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy' yn cynnwys 'pren', a bod y cynllun dilynol yn cael ei ysgrifennu mewn iaith glir a chryno, gan sicrhau nad yw'n creu rhwystr i ymgeiswyr.

Confor Wales

3.5 Gwobrwyo Camau Gweithredu ynteu Ganlyniadau

Roedd rhywfaint o ddryswch ymhlith y cyfranogwyr ynghylch a oedd y cynigion yn ceisio gwobrwyo camau gweithredu ynteu ganlyniadau. Teimlai lleiafrif sylweddol o'r cyfranogwyr fod yr holl ddogfen ymgynghori'n amwys ynghylch ar ba sail y byddai ffermwyr yn cael eu gwobrwyo, a galwent am ddisgrifiadau mwy cryno a phendant o sut y byddai SLM yn cael ei wobrwyo o dan y cynllun newydd.

At hynny, ymddengys bod anghytuno rhwng ymatebwyr a deimlai y dylai'r cymorth gael ei roi am gamau gweithredu, a'r rheini a gredai y dylid targedu canlyniadau'n lle hynny. Ymhlith y rheini a ymatebodd, roedd mwy o blaid y datganiad 'mai Llywodraeth Cymru ddylai ysgwyddo'r risg os na fydd y camau y cytunwyd arnyn nhw'n arwain at ganlyniadau' (Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, 2019: 8). Dywedodd y rheini a oedd o blaid gwobrwyo camau gweithredu y gallai tywydd drwg ac anwadal, ynghyd â ffactorau eraill y tu hwnt i reolaeth ffermwyr, olygu na ellid gwarantu cyflawni canlyniadau penodol drwy gymryd y camau gweithredu cywir yn unig. Byddai unrhyw gynllun taliadau nad oedd yn adlewyrchu hyn yn un annheg.

Ar y llaw arall, galwodd ymatebwyr eraill am roi mwy o bwyslais ar wobrwyo canlyniadau. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, byddai rhoi cymorth i gymryd camau gweithredu'n unig yn golygu y gallai ffermwyr fod â llai o berchnogaeth am ganlyniadau, tra byddai hefyd yn golygu llai o arloesi i gyflawni canlyniadau drwy ddulliau newydd. Er bod rhai o'r ymatebwyr hyn yn credu mai seilio'r taliadau ar gyflawni canlyniadau'n unig yw'r ffordd orau o fwrw ymlaen, roedd eraill o blaid dull cymysg a oedd yn targedu camau gweithredu a chanlyniadau ill dau:

Mae'r ymgynghoriad yn dangos bod tensiwn rhwng y risg i'r ffermwr o beidio â chyflawni canlyniad, o safbwynt gwerth cyhoeddus, a'r dyhead rhesymol i sicrhau nad yw ffermwyr yn wynebu risg o beidio â chael taliadau pe na baent yn cyflawni am resymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae'r dull a gyflwynwyd yn golygu bod ffermwyr yn gwneud y penderfyniad am ba opsiynau i'w dilyn (roedd hyn yn cael ei sgrinio yn y gorffennol gyda thystiolaeth dda o gyflawni), tra bo Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo'r risg lawn o beidio â chyflawni. Mae tystiolaeth nad y ffordd hon o bosibl yw'r ffordd orau i sicrhau bod ffermwyr yn perchnogi canlyniadau ehangach, ac yn hytrach mae'n symud tuag at roi pwyslais ar gamau gweithredu yn hytrach na chanlyniadau. Mae rhoi taliadau am ganlyniadau, ac yn benodol system sy'n defnyddio taliadau graddol i wobrwyo canlyniadau, yn rhoi cymhelliad cryf i reolwr tir i ddod o hyd i'r dull rheoli gorau sy'n cyflawni'r canlyniad dan sylw. Mae'n bosibl y gellid ystyried cyflwyno dull cymysg sy'n rhoi sicrwydd o daliad rheoli sylfaenol ynghyd â bonws am gyflawni canlyniadau mesuradwy.

Cyfoeth Naturiol Cymru

3.6 Rheolwyr Tir Eraill

Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd coedwigwyr nac arferion coedwigaeth cynaliadwy'n cael digon o sylw yn y fframwaith, na thrwy'r holl ddogfen ymgynghori. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr a gredai hyn ei bod yn ymddangos bod yr iaith wedi newid, ac yn hytrach na defnyddio termau cynhwysol fel 'rheoli tir', fel a gafwyd yn *Brexit a'n Tir*, bod yr iaith bellach yn sôn mwy am ffermio. Roedd nifer o ymatebwyr o'r sector coedwigaeth yn teimlo'u bod wedi'u diystyru i raddau helaeth, a thynnwyd sylw yn hyn o beth at y ffaith bod enwau'r ddwy ddogfen ymgynghori'n wahanol ("Brexit a'n Tir" a "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir"). O'r safbwynt hwn, teimlai'r ymatebwyr nad oedd yr ystod o fanteision amgylcheddol sy'n deillio o goedwigaeth gynaliadwy yn cael sylw digonol yn y cynigion:

Ar ôl i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd ac ymrwymo i blannu mwy o goed, mae braidd yn siomedig bod y cynigion ynghylch annog a chefnogi SLM yn cyfeirio at goedwigaeth fel gweithgarwch eilradd yn unig. Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad Brexit a'n Tir y llynedd yn cyflwyno achos clir dros sicrhau bod rôl amlycach gan goedwigaeth mewn SLM, ac fel cyfle i ffermwyr arallgyfeirio a dod yn fwy cadarn yn economaidd ac yn amgylcheddol.

BSW Timber

3.7 Pwysigrwydd Cyngor Arbenigol

Roedd yr angen am weithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth arbenigol i roi cyngor yn thema a godai'n gyson yn yr ymatebion. Galwodd yr ymatebwyr am fwy o gyfraniad gan arbenigwyr wrth greu'r Gwasanaeth Cynghori newydd ac wrth gynnal yr Adolygiadau o Gynaliadwyedd Fferm. Credai ymatebwyr y dylai cynghorwyr feddu ar wybodaeth benodol am yr ardal ddaearyddol dan sylw, ac y dylai fod gan wahanol gynghorwyr arbenigedd mewn ystod o feysydd er mwyn sicrhau bod cyngor o'r radd flaenaf ar gael.

3.8 Mynd ymhellach na chefnogi 'Incwm a Gollwyd a'r Costau a Ysgwyddwyd'

Cytunai ymatebwyr yn gryf â'r syniad y dylid talu 'pris teg am ddarparu canlyniadau positif' i weithwyr amaethyddol, a hynny'n 'mynd ymhellach na'r "incwm o gollwyd a'r costau a ysgwyddwyd" sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrif taliadau Glastir' (Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, 2019: 46). Yn ôl ymatebwyr, byddai hyn yn cyfrannu at les ffermwyr ac at eu hymdeimlad o'u gwerth, a byddai'n gam cadarnhaol tuag at hybu gwell iechyd meddwl ymhlith y boblogaeth hon.

3.9 Gwella Ymwybyddiaeth y Cyhoedd a'u Dealltwriaeth o SLM

Galwodd nifer o gyfranogwyr am gryfhau'r modd yr ymgysylltir â'r cyhoedd a sut y codir ymwybyddiaeth am fanteision rheoli tir yn gynaliadwy. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod ymddygiad defnyddwyr yn dal i gefnogi'r broses o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yng Nghymru ac yn hyrwyddo gwerthoedd brand cynaliadwy i ddefnyddwyr yng Nghymru a'r tu hwnt:

Dylai ymgysylltu â'r cyhoedd fod yn ganolog i bolisi yn y dyfodol, gyda'r nod o wella dealltwriaeth y cyhoedd am fwyd, ffermio a'r amgylchedd. Dylid cefnogi ffermwyr i ymwneud â'r cyhoedd, drwy drefnu ymweliadau â ffermydd, er enghraifft, a gallai'r llywodraeth ganolog neu llywodraeth leol gefnogi hynny, e.e. gyda thaliadau am bob ymweliad a chymorth ariannol i wella cyfleusterau ar y fferm i ymwelwyr. Dylid annog ffermwyr a rheolwyr tir i edrych ar ffyrdd arloesol o ymwneud â'r cyhoedd, gan gynnwys drwy gydweithio â ffermwyr sy'n gymdogion iddynt, drwy ymwneud â'r cwricwlwm ysgol, a thrwy bartneriaethau â busnesau eraill (fel cynhyrchwyr bwyd neu fanwerthwyr).

Rhwydwaith Ffermino er Lles Natur

3.10 Crynodeb o'r Farn am SLM

Drwyddi draw, mae'n ymddangos bod pobl ar y cyfan o blaid y fframwaith SLM. I lawer, roedd y gefnogaeth hon yn amodol ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y rheini a gyflwynir uchod. Er enghraifft, gan ddibynnu ar safbwynt pobl, roedd y canlyniadau yn y fframwaith naill ai'n rhy eang a rhagnodol, neu nid oeddent yn ddigon cynhwysfawr. Er hynny, roedd cefnogaeth ar y cyfan i'r fframwaith ei hun ac i brif sylwedd y cynigion:

Rwy'n credu bod ffrwd incwm wedi'i seilio ar Reoli Tir yn Gynaliadwy yn syniad da mewn egwyddor; fodd bynnag, mae angen cadw hyn mor syml â phosibl.

Ffermwr Defaid

Rydym yn credu bod y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) yn well na'r cynigion a gafwyd yn yr Ymgynghoriad diwethaf... Mae manteision i roi pwyslais ar ganlyniadau amgylcheddol wrth roi taliadau, ond eto ni ddylai hyn roi busnesau fferm o dan anfantais. Mae potensial hefyd i neilltuo tir amaethyddol da (tir â'r a thir pori) ar gyfer buddion amgylcheddol, a byddai hynny'n lleihau faint o dir sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu.

Cyngor Ynys Môn

O blith yr ymatebion amodol, roedd y rheini a oedd ar y cyfan yn cefnogi'r fframwaith, ond gyda rhai amheuan, yn dueddol o bryderu am gystadleurwydd sector. Yn yr un modd, roedd y rheini a oedd yn fwyaf beirniadol o'r fframwaith yn dueddol o deimlo y byddai'r pwyslais ar ganlyniadau amgylcheddol yn niweidiol i gystadleurwydd a chynaliadwyedd ariannol y sector. Roedd ymatebwyr eraill wedyn yn cydnabod y cydbwysedd a geir yn y fframwaith rhwng cefnogi cynhyrchu a chanlyniadau amgylcheddol, ond roeddent naill ai'n awgrymu neu'n datgan yn glir y dylai'r cynigion gefnu ar ganlyniadau amgylcheddol yn llwyr. Er mai safbwyntiau ymylol oedd y rhain, cawsant eu mynegi'n gryf:

Rwy'n anghytuno'n llwyr â'r bwriad i roi ffrwd incwm am ganlyniadau amgylcheddol. Byddai plannu coed ym mhobman, er enghraifft, yn lleihau gwerth tir yn rhyfeddol o gyflym. Byddai hyn yn amharu ar allu ffermwyr i wneud elw...

Ffermwr Cymysg

Os ydych chi am ganolbwyntio gormod ar dalu am elfennau amgylcheddol, yn hytrach nag am gynhyrchu bwyd, mae perygl gwirioneddol y bydd ardaloedd gwledig yn colli capasiti ac y gallai'r dulliau ffermio presennol ddiflannu am byth!!

Ffermwr Defaid

4 Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno cynllun taliadau newydd a fydd yn gwobrwyo ffermwyr am gyflawni canlyniadau ym maes Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Unwaith y bydd fferm yn rhan o'r cynllun, bydd yn gymwys i gael y Taliad Ffermio Cynaliadwy. Bydd hwn i bob diben yn disodli'r Cynllun Taliad Sylfaenol a Glastir.

Mae i'r cynigion nifer o nodweddion pwysig. Bydd y cynllun yn rhoi ffrwd incwm ystyrlon i ffermwyr, fel y mae'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn ei wneud ar hyn o bryd. Bydd y taliadau'n ddibynnol ar gymryd camau gweithredu penodol; fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo'r risg os nad yw camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn arwain at ganlyniadau positif. At hynny, bydd y cynllun yn gwobrwyo arferion cynaliadwy presennol, gan sicrhau bod y rheini sydd eisoes yn darparu nwyddau cyhoeddus ehangach yn cael cydnabod am eu cyfraniad. Ar ôl ystyried yr adborth o *Brexit a'n Tir*, bydd y cynllun hefyd yn cynnwys mwy o hyblygrwydd, gan alluogi ffermwyr i roi'r dulliau mwyaf effeithiol ar waith sy'n addas i'w hamgylchiadau a'u hamodau lleol.

Cwestiwn yr Ymgynghoriad

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. At hynny, gofynnwyd iddynt sut y dylai'r cynllun gael ei redeg, pa feini prawf y dylid eu defnyddio i benderfynu sut i roi taliadau, ac am unrhyw syniadau eraill ar gyfer cefnogi ffermwyr.

Crynodeb o'r Ymatebion

- Dylai'r cynllun wobrwyo camau i 'greu' a 'chynnal' gweithgarwch SLM.
- Dylai'r cynllun flaenoriaethu sefydlogrwydd ariannol ffermwyr.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid capio'r taliadau er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei rannu'n deg, gyda phwyslais ar gefnogi ffermydd teuluol bychain yn hytrach na rheolwyr tir mawr.
- Teimlai rhai y dylai'r cymhwysedd fod yn gyfyngedig i reoli tir byw yn unig, ac na ddylai gynnwys rheoli tir segur, gan gynnwys dad-ddofi tir.
- Cymysg oedd y farn ynghylch gwobrwyo ffermwyr am ddarparu nwyddau cyhoeddus, ac ynghylch eu cymell i wneud hynny.

4.1 Sefydlogrwydd a Sicrwydd Ariannol

Er mwyn gwarchod hyfywedd sector amaethyddol Cymru, dywedodd ymatebwyr fod angen i unrhyw gynllun flaenoriaethu sefydlogrwydd a sicrwydd ariannol i ffermwyr. Gwnaeth cyfran uchel o'r ymatebwyr y pwynt hwn, ac fe'i mynegwyd nifer o weithiau yn yr atebion i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad, bron iawn.

Pryder o bwys oedd yr argraff na fyddai'r cynllun newydd mor hael â'r Cynllun Taliad Sylfaenol. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn pryderu y byddai'r cymhorthdal cyhoeddus is yn achosi i'w busnes fynd i'r wal. Tynnodd yr ymatebwyr sylw'n aml at y ffaith nad ar ffermwyr yn unig y byddai hyn yn effeithio, ond hefyd gymunedau gwledig a'r cadwyni cyflenwi ehangach, gan gynnwys cyflenwyr porthiant, contractwyr a milfeddygon.

Yn hyn o beth, roedd ymatebwyr yn cefnogi parhau â rhyw fath o Gynllun Taliad Sylfaenol sy'n rhoi math o rwyd ddiogelwch drwy ychwanegu at brif incwm busnes ffermwyr a chrofftwyr. Yn ôl nifer o ymatebwyr, dylai'r cynllun newydd roi digon o gymorth ariannol er mwyn sicrhau hyfywedd y busnes, gan gynnwys helpu pobl i ddygymod â risgiau ac ansicrwydd.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid gwneud y taliadau ar sail flynyddol, gan fod modd i ffermwyr gyllidebu ar gyfer hynny, gyda chronfa arall ar gyfer costau cyfalaf, ynghyd â thaliad am gyflawni canlyniadau. Yn fwy na hynny, gofynnodd rhai ymatebwyr am gontractau mwy hirdymor, dros nifer o flynyddoedd, gan gredu bod y rhain yn hanfodol er mwyn rhoi sicrwydd a pharhad, er i nifer nodi y byddai'n bwysig adolygu'r contractau hyn yn rheolaidd, yn enwedig yn ystod cyfnod cychwynnol y cynllun. Teimlai nifer o ymatebwyr fod cefnogi cadernid economaidd ffermydd teuluol bychain, ffermwyr tenant, a newydd-ddyfodiaid yn hollbwysig. Yn y cyfamser, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid gwneud taliadau ar ddiwedd pob contract yn flynyddol, yn hytrach nag ar ddyddiad penodol, er mwyn gwasgaru'r baich gweinyddol a sicrhau nad yw taliadau'n ôl-gronni mewn ffordd sy'n niweidiol i les ariannol ffermwyr.

4.2 Capiu Taliadau

Roedd mwyafrif y prif ymatebion yn cytuno y dylid capio taliadau i dirfeddianwyr mawr er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosrannu'n deg i ffermydd llai. Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr hynny a oedd o blaid capio taliadau yn dadlau dros gael cap absoliwt, heb fod unrhyw daliadau ar gael i hectarau dros drothwy penodol. Roedd cyfran debyg hefyd yn dadlau am gapio lefel y taliadau fesul hectar o dir:

Rhaid capio taliadau er mwyn diogelu enw da unrhyw gynllun ac er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei dalu i ffermydd teuluol, yn hytrach na chaniatáu'r math o daliadau anghyfyngedig y mae buddsoddwyr a chwmnïau yn Lloegr wedi manteisio arnynt ar draul ffermydd teuluol, cymunedau, ac enw da'r PAC yn gyffredinol.

Ffermwr Defaid

Fodd bynnag, dywedodd ffermwyr eraill y byddai cap fesul hectar yn tanseilio arferion da, ac na fyddai'n ddull da o reoli taliadau:

Byddem yn anghytuno'n gryf â chap fesul hectar, gan y byddai hynny'n parhau â'r sefyllfa bresennol, sy'n golygu y mwyaf o dir rydych chi'n berchen arno, y mwyaf o arian a gewch. Os gall ffermwr greu manteision niferus ar yr un darn o dir, yna dylai gael y taliad llawn am hynny.

Unigolyn

At hynny, gwrthwynebai nifer bychan o ymatebwyr y cysyniad o gap absoliwt ar daliadau, gan ddatgan yn hytrach y dylai taliadau gyd-fynd â'r camau gweithredu a gymerir:

Nid yw capio'n broblem yn gyffredinol os gwneir hynny fesul hectar, ond mae angen bod yn ofalus. Bydd angen cyllid er mwyn sefydlu coetiroedd, er mwyn dechrau'r gwaith plannu, ac mae'n ddigon posibl y byddai prosiect coedwigo cymharol fychan, hyd yn oed, yn fwy na'r cap blynyddol.

Unigolyn

4.3 Meini Prawf Cymhwysedd

Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i weld meini prawf llym yn cael eu gosod ar gyfer cymhwysedd, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosrannu'n deg a threfnus. Yn benodol, dadleuodd mwyafrif yr ymatebwyr yn gryf dros seilio cymhwysedd ar reoli tir byw. Anghytunai nifer cyfyngedig o ymatebwyr, gan fynegi pryderon dros gyfyngu'r cymhwysedd i reoli tir byw yn unig, a datgan y byddai hyn yn niweidiol i ffurfiau eraill buddiol o reoli tir fel dad-ddofi:

Mae'n bwysig ystyried yn ofalus y syniad o gyfyngu taliadau i reoli tir byw yn unig. Efallai na fydd angen llawer o reoli o gwbl yn y tymor hir ar dir sy'n cael i adfer i'w gyflwr naturiol, gan ddarparu manteision cyhoeddus da ar yr un pryd.

Y Sefydliad Siartredig Rheoli Tir a'r Amgylchedd

Dadleuodd nifer bychan o ymatebwyr, mewn niferoedd eithaf tebyg, o blaid ac yn erbyn cyflwyno gofyniad a fyddai'n golygu bod yn rhaid i fusnes fod o faint penodol er mwyn bod yn rhan o unrhyw feini prawf cymhwysedd. Roedd y rheini a oedd o blaid y cynnig hwn yn bennaf yn codi cwestiynau am gyllid a fforddiadwyedd, tra bo'r dadleuon yn erbyn y cynnig yn datgan y byddai hyn yn niweidiol i arddwriaeth – math o ddefnydd tir sy'n gallu creu manteision niferus mewn ardaloedd bychain o faint.

4.4 Gwobrwyo Creu a Chynnal

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd gwobrwyo creu a chynnal gweithgarwch SLM fel ei gilydd:

Rydym yn croesawu'r bwriad i gefnogi gwaith cynnal, yn ogystal â chreu. Mae nifer o ffermwyr eisoes wedi gwneud llawer o waith i greu cynefinoedd, ac mae'n bwysig cefnogi'r ffermwyr hynny sydd wedi gwneud y gwaith mwyaf buddiol dros yr amgylchedd, yn ogystal â pharhau i gefnogi'r gwaith o greu cynefinoedd newydd.

Unigolyn

Fodd bynnag, er bod yr ymatebion ar y cyfan yn ffafriol, mynegodd rhai bryderon am fforddiadwyedd cefnogi'r ddwy elfen, yn enwedig ac ystyried yr ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid a fydd ar gael ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

4.5 Lleihau Biwrocratiaeth

Roedd yr ymatebion i nifer o gwestiynau'r ymgynghoriad o blaid lleihau biwrocratiaeth a symleiddio pethau pryd bynnag y mae hynny'n bosibl. Ofnai cyfran sylweddol o'r ymatebwyr y byddai'r cynllun arfaethedig yn cynyddu'r baich yn arw ar ffermwyr o ran gwaith papur a mathau eraill o waith gweinyddol:

I nifer o ffermwyr, yn enwedig y rheini a chanddynt ffermydd bychain, roedd y gwaith papur ar gyfer y Cynllun Taliad Sylfaenol a Glastir yn feichus tu hwnt. Dylai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy geisio osgoi biwrocratiaeth ormodol os yw i lwyddo. At hynny, rhaid i'r technegau arsylwi/dadansoddi a ddefnyddir yn yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm ar y dechrau, yn ogystal â'r adolygiadau dilynol, fod yn syml a rhwydd os nad ydynt i lethu ffermwyr a chynghorwyr fel ei gilydd.

Unigolyn

Rwy'n pryderu'n arw bod yr ymgynghoriad yn cynnig cyflwyno cynllun biwrocraidaidd iawn i ddisodli'r Cynllun Taliad Sylfaenol. Mae'n ymddangos y bydd y cynllun newydd yn dibynnu i raddau helaeth ar gymorth ymgynghorwyr a chynghorwyr allanol, a hynny'n cyfrif am gyfran sylweddol o gost y cynllun newydd. Mae'n ymddangos bod y cynllun newydd yn rhy fiwrocraidaidd. Bydd yn anodd ac yn gostus i'w weinyddu, ac yn gymhleth i ffermwyr i'w roi ar waith, a hynny'n eu rhoi o dan ragor o bwysau.

Unigolyn

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cyflwyno dulliau fesul gris sy'n rhoi llwybrau syml at y cynllun, gan sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb. Byddai hyn yn galluogi ffermydd llai i ymwneud â'r cynllun, gan sicrhau hefyd bod yr ystod eang o ganlyniadau'n cael eu cefnogi drwy'r holl fframwaith SLM:

Mae'r cynllun yn ymddangos yn gymhleth iawn a rhaid ei symleiddio. A fyddai'n bosibl cynnig y cynllun ar dair lefel wahanol, yn debyg mewn egwyddor i gynlluniau Glastir, fel bod y lefel isaf yn syml ac yn hawdd iawn i'w dilyn, y lefel nesaf fymryn yn gymhlethach, a'r drydedd lefel yn fwy cymhleth fyth?

Unigolyn

Dylai'r cynlluniau fod yn syml ac yn ymarferol i'w gweinyddu, gyda'r costau cyn lleied ag y bod modd i Lywodraeth Cymru a ffermwyr. Byddai nifer o ffermwyr yn gallu mynegi diddordeb neu gyflwyno ceisiadau heb fod angen cyngor drud gan ymgynghorwyr. Byddai rhoi dogfennau esboniadol da a phyrth da ar y we yn golygu bod modd cyflwyno'r cynllun yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Mae risg y bydd llawer yn credu ei fod yn rhy gymhleth, ac ni fyddant yn gwneud cais o dan cynllun newydd.

Y Gymdeithas Ffermwyr Defaid Mynydd Cymreig

4.6 Buddsoddi mewn Nwyddau Cyhoeddus

Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys nifer o sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Y Cerddwyr ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru, i raddau helaeth o blaid cael cynllun sy'n cefnogi ffermwyr i ddarparu nwyddau cyhoeddus na fyddai fel arall yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad. Er bod y ffermwyr i raddau helaeth o blaid yr agwedd hon ar y cynllun, nid oedd lleiafrif o ffermwyr yn cytuno y dylai darparu nwyddau cyhoeddus fod yn rhan o'u gwaith, ac nad eu cyfrifoldeb hwy oedd hyn.

Teimlai nifer sylweddol o ffermwyr fod hepgor bwyd fel nwydd cyhoeddus yn fwlc o bwys yn y ddogfen ymgynghori, ac ofnent y byddai hyn yn peryglu cynhyrchu bwyd yng Nghymru ymhellach:

Er fy mod yn credu ei bod yn iawn canolbwytio ar yr amgylchedd, rwy'n dal i gredu bod creu cyflenwad wedi'i warantu o fwyd lleol, diogel, i safonau lles uchel, yn nwydd cyhoeddus. Mae hyn yn enwedig gan nad yw'r farchnad o anghenraid yn gwobrwyo safonau lles uchel a'r gallu i olrhain, h.y. mae symudiadau a thagio'n gost i'r ffermwr. Gellir mewnfario bwyd rhatach o hyd tan y bydd argyfwng yn digwydd, ac ati.

Unigolyn

4.7 Cymorth Busnes

Mynegwyd safbwyntiau cymysg am rôl cymorth busnes yn y cynllun newydd. Roedd nifer bychan o ymatebwyr yn awyddus i weld mwy o gymorth busnes ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir eraill, gan ddatgan bod cael cyngor da yn y maes hwn hollbwysig er mwyn i unrhyw fusnes amaethyddol allu gwneud elw. Fodd bynnag, lleiafrif a ddywedodd hyn, ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr a fynegodd farn am y pwnc hwn yn teimlo nad oedd angen cyflwyno cymorth busnes ychwanegol o dan y cynllun newydd, ac y byddai'n gwastraffu adnoddau cyfyngedig:

Teimlwn fod digon o hyfforddiant/datblygu sgiliau busnes a chyngor gan ymgynghorwyr ar gael eisoes. Yn wir, credwn y byddai'n llawer gwell rhoi'r arian yn uniongyrchol i'r ffermwr i'w helpu i dalu am anghenion unigol ei fusnes ac i wneud iawn am brisiau truenus y farchnad...

Unigolyn

Roedd rhai ymatebwyr o blaid cyflwyno mwy o gymorth busnes, ond ar gyfer busnesau bychain ac/neu fusnesau amrywiol mewn ardaloedd gwledig yn unig. Roedd yr ymatebwyr a gredai hyn yn aml yn pwysleisio y dylai'r cymorth hwn fod yn gyfyngedig, ac na ddylai effeithio'n negyddol ar faint o adnoddau a oedd ar gael i ffermwyr yn uniongyrchol.

5 Gwasanaeth Cynghori

Crynodeb o'r Cynigion

Gan ystyried yr ymatebion i *Brexit a'n Tir*, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen Gwasanaeth Cynghori cynhwysfawr sy'n datblygu ar yr arferion da presennol, gan gynnwys rheolwyr contract Glastir a Chyswllt Ffermio. Byddai'r Gwasanaeth Cynghori yn disodli'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth bresennol drwy Cyswllt Ffermio a Glastir, yn hytrach na'u dyblygu. Mae hyn yn rhoi sylw i heriau Brexit a'r symud tuag at gynllun sydd wedi'i seilio ar ganlyniadau. Mae'n arbennig o berthnasol yn ystod unrhyw gyfnod pontio.

Cwestiwn yr Ymgynghoriad

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am y cynigion ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori. At hynny, gofynnwyd iddynt a ddylid sefydlu'r gwasanaeth ai peidio, ynghyd â'u barn am rôl a swyddogaethau'r gwasanaeth. At hynny, gofynnwyd i'r ymatebwyr sut berthynas a ddylai fod rhwng y Gwasanaeth Cynghori a Llywodraeth Cymru, ac am eu barn am faint y gwasanaeth.

Crynodeb o'r Ymatebion

- Roedd teimlad eang na ddylai'r Gwasanaeth Cynghori ddyblygu'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys gwaith Cyswllt Ffermio a Glastir.
- Credai'r ymatebwyr yn aml y byddai'r gwasanaeth arfaethedig yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â gwasanaethau eraill, er mai nad dyna oedd y bwriad yn y cynigion.
- Roedd pryderon am gostau sefydlu a chynnal y gefnogaeth.
- Dylai'r Gwasanaeth Cynghori barhau'n annibynnol o Lywodraeth Cymru ac unrhyw gorff rheoleiddio arall.

5.1 Gwybodaeth Leol a Meysydd Arbenigedd

Teimlai'r ymatebwyr y dylai fod gan y cynghorwyr fathau gwahanol o arbenigedd a phrofiad, gan gynnwys cydbwysedd rhwng gwybodaeth leol ac arbenigol. At hynny, teimlai rhai y byddai dynodi ffermwyr a allai roi cyngor mwy cyffredinol gan gymheiriaid yn ffordd dda o roi cefnogaeth a chynngor:

Barn Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru yw ei bod yn hanfodol datblygu Gwasanaeth Cynghori i sicrhau bod y cynllun newydd yn cael ei weithredu, ei reoli a'i gyflawni'n ddirwystr. Fodd bynnag, bydd yn bwysig sicrhau mai gwasanaeth cyhoeddus yw'r Gwasanaeth Cynghori, ac nad yw'n cael ei gontractio i asiantau unigol. Bydd angen i gynghorwyr ddangos empathi â'r gymuned ffermio, meithrin ymddiriedaeth, a dangos digon o arbenigedd i weithio ochr yn ochr â'r gymuned ffermio er mwyn i'r cynllun newydd gael ei roi ar waith yn llwyddiannus. Dylai fod gan y cynghorwyr allu hefyd i wneud penderfyniadau, a dylai fod awdurdod i'w hargymhellion.

Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru

5.2 Cyllid

Yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd un pryder o bwys yn ymwneud â'r adnoddau a'r cyllid a fyddai'n angenrheidiol er mwyn darparu Gwasanaeth Cyngori newydd, llawn. Cwestiynodd nifer o ymatebwyr a oedd angen Gwasanaeth Cyngori arall, ac ystyried y cyrff presennol sy'n bodoli fel Cyswllt Ffermio. Roedd hi'n ymddangos bod nifer o'r rheini a gododd y mater hwn yn credu y byddai'r cynigion yn cyflwyno'r Gwasanaeth Cyngori ochr yn ochr â darpariaethau eraill. Credai nifer sylweddol o ymatebwyr y byddai creu Gwasanaeth Cyngori newydd yn dargyfeirio adnoddau cyfyngedig ac yn lleihau faint o gymorth ariannol uniongyrchol a oedd ar gael i ffermwyr eu hunain:

Byddai'n hynod o ddrud ac yn anymarferol. Gan ystyried y problemau presennol gyda chynlluniau Glastir, byddai rhoi'r fath gynllun unigryw ar waith yn drychinebus.

Ffermwr Cymysg

Yn hyn o beth, awgrymodd ymatebwyr yn aml y dylai'r cynigion ganolbwyntio'n bennaf ar greu proses ymgeisio syml, ac ar greu rhestr gryno o'r canlyniadau amgylcheddol y gellir eu cyflawni. Byddai hyn yn lleihau'r angen am Wasanaeth Cyngori arall.

Credai eraill wedyn fod gwir angen ymweliadau gan gynghorwyr a'i bod yn hanfodol datblygu perthynas rhwng y fferm a'r cynghorwr er mwyn sicrhau bod y cynllun yn arwain at ganlyniadau ystyrlon. Pwysleisiodd ymatebwyr y gallai pob fferm wynebu heriau unigryw iawn, a'i bod yn hollbwysig deall y problemau hynny er mwyn cael cynllun ystyrlon. Dim ond drwy ymweld â safleoedd y gellid cyflawni hyn:

Rydym yn cefnogi'n gryf farn Llywodraeth Cymru "y dylid meddwl am gyngor fel buddsoddiad yng nghapasiti ffermwyr yn hytrach nag fel cost i'r cynllun" (1.48). Mae tystiolaeth o gynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol, fel Tir Gofal yn bennaf, yn cefnogi'r farn y gellir rhoi gwell gwerth am arian pan fydd cefnogaeth a chynngor da ar gael fel rhan o'r cynllun.

Cymdeithas Eryri

5.3 Pryderon am roi'r Cynllun ar Waith

Ynghyd â'r pryderon am gyllid, roedd pobl hefyd o dan yr argraff y gallai'r Gwasanaeth Cyngori ddyblygu gwasanaethau presennol, gan gynnwys Cyswllt Ffermio. Yn gysylltiedig â hyn, roedd ymatebwyr yn amheus a ellid dod o hyd i ddigon o gynghorwyr gyda'r lefel a'r ystod iawn o arbenigedd mewn pryd i roi'r cynllun newydd ar waith. Yn ôl yr ymatebwyr, dylai'r cynghorwyr fod wedi'u hyfforddi'n llawn a dylent feddu ar brofiad addas cyn i'r cynllun ddechrau, er mwyn sicrhau bod modd pontio'n llyfn.

5.4 Annibyniaeth y Gwasanaeth

Teimlai rhai ymatebwyr ei bod yn hanfodol bod y Gwasanaeth Cyngori yn endid annibynnol sy'n rhoi cynngor annibynnol:

Dylai'r gwasanaeth roi cyngor diduedd, cyffredinol am bolisiâu a materion sy'n gysylltiedig â'r farchnad, ynghyd ag iechyd a lles anifeiliaid, a chyngor am faterion amgylcheddol/cadwraeth. Dylai hefyd roi cyngor arbenigol, neu gyllid i dalu am hwnnw os nad yw'n bodoli eisoes yn fewnol. Ni ddylai fonopoleiddio'r cyngor a ddarperir.

Ffermwr Defaid

5.5 Cylch Gwaith Addysgol

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r Gwasanaeth Cyngori newydd gyflawni gwaith addysgol (neu roi hyfforddiant) er mwyn gwella gwybodaeth ffermwyr am y technegau a'r prosesau newydd y bydd eu hangen arnynt er mwyn elwa o'r cynllun newydd.

5.6 Hygyrchedd a Gallu'r Gefnogaeth i Ymateb

Prif sylw mwyafrif yr ymatebwyr oedd y byddai angen i'r cynllun fod yn hygyrch ac na ddylai'r broses weinyddol fod yn feichus, gan y byddai hynny'n rhwystro pobl rhag gwneud cais ac yn rhoi ffermwyr o dan ragor o bwysau. Byddai hyn yn helpu i leihau anghydraddoldebau drwy'r sector amaethyddol, yn ôl ymatebwyr.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai unrhyw Wasanaeth Cyngori newydd fod yn ddigon hyblyg i addasu ac ymateb i ofynion y sector wrth i'r rheini newid. Byddai hyn yn cynnwys, yn nodedig, yr angen i ateb galw cynyddol wrth i'r cynllun newydd gael ei gyflwyno, yn ogystal â'r angen i roi cyngor arbenigol mewn meysydd gwahanol wrth i'r sector symud tuag at brosesau newydd i reoli tir yn fwy cynaliadwy.

5.7 Atebolwydd

O dan y cynllun newydd, bydd gan gynghorwyr rôl sylweddol wrth gyfarwyddo gweithgarwch ffermwyr. Bydd hyn yn golygu y bydd cynghorwyr yn cael effaith fawr ar y taliadau y bydd ffermwyr yn eu cael o dan y cynllun newydd. Roedd yr ymatebwyr gan hynny'n awyddus i sicrhau y byddai unrhyw Wasanaeth Cyngori yn atebol am y cyngor y mae'n ei roi. Roedd y camau i sicrhau atebolwydd a awgrymwyd gan ymatebwyr yn cynnwys monitro'r Gwasanaeth Cyngori yn rheolaidd a chyflwyno gwasanaeth apelio:

Rwy'n credu y gallai'r un bobl wneud gwaith y cynghorwyr a'r swyddogion rheoleiddio, gan y byddent yn gwybod wedyn am beth y dylid chwilio amdano, gan wybod a fydd y targedau wedi'u cyrraedd ai peidio. Os bydd un swyddog yn gosod y targed ac un arall yn gwirio a yw hwnnw wedi'i gyrraedd, y broblem anochel yw y bydd ganddynt safonau gwahanol. Gallai'r ffermwr gredu ei fod wedi cyrraedd y targed, yn ôl yr hyn a ddywedodd y cynghorwr wrtho, ond efallai na fydd y swyddog rheoleiddio yn credu hynny. Bydd yr apeliadau sy'n dilyn yn gwastraffu amser, ymdrech ac arian gan effeithio ar y gwaith y mae angen ei wneud.

Ffermwr Defaid

6 Y Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi

Crynodeb o'r Cynigion

Mae'r cynigion yn cynnig rhoi cefnogaeth wedi'i thargedu i'r diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod mai ffermwyr ddylai gael mwyafrif y cymorth ariannol drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, efallai y byddai'n decach ac yn fwy effeithlon rhoi cefnogaeth i'r diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi, yn enwedig y sector amaethyddol.

O'r safbwynt hwn, gallai diwydiant bwyd a diod Cymreig ffyniannus greu mwy o alw am gynnyrch cynradd Cymreig. Mae Llywodraeth Cymru gan hynny'n cynnig cefnogi'r diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi os yw hynny'n gyson â'r nod SLM ac yn y pen draw o fudd i ffermwyr Cymru.

Cwestiwn yr Ymgynghoriad

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am werth a phwysigrwydd cymharol cefnogi'r diwydiant bwyd a diod ehangach a chadwyni cyflenwi er mwyn cefnogi'r sector.

Crynodeb o'r Ymatebion

- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod rôl y diwydiant ehangach a chadwyni cyflenwi wrth gefnogi sector amaethyddol iach.
- Roedd nifer helaeth o blaid annog partneriaethau a chydweithio lleol.
- Roedd pryderon y byddai gwario adnoddau cyfyngedig ar y diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi yn lleihau'r cymorth ariannol sydd ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir eraill.
- Cymysg oedd y farn ynghylch a ddylai egwyddorion SLM fod yn berthnasol wrth gefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi.

6.1 Manteision Buddsoddi yn y Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cydnabod rôl bwysig y diwydiant ehangach a chadwyni cyflenwi wrth gefnogi'r sector amaethyddol. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd o blaid cefnogi'r gadwyn gyflenwi, er enghraifft, yn tynnu sylw at fanteision cadwyni cyflenwi mwy integredig a lleol. Er enghraifft, gallai sefydlu safleoedd prosesu lleol, ar raddfa fach, gwtogi milltiroedd bwyd a galluogi ffermwyr i leihau eu costau a chynyddu'u helw:

Byddai buddsoddi mewn seilwaith i gadw mwy o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru yn lluosogi unrhyw fuddsoddiad mewn ffermydd ac yn creu gwaith. Mae lladd-dai, golchdai gwllân, melinau, hufenfeydd a phurwyr, ynghyd â siopau cynnyrch ac ati, i gyd yn bwysig.

Ffermwr Defaid

Rydym yn derbyn mewn egwyddor y gallai buddsoddiad gan y llywodraeth yn y gadwyn gyflenwi helpu i greu cyfleoedd newydd i reoli tir yn gynaliadwy. Mae potensial mawr mewn ardaloedd ymylol ac yn yr ucheldiroedd i gefnogi systemau ffermio sydd o Werth Mawr i Natur, ond mae'r pellter o farchnadoedd, lladd-dai a safleoedd prosesu, er enghraifft, yn her i hyfywedd cynhyrchu bwyd yn yr ardaloedd hyn.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

6.2 Cefnogaeth ar Sail SLM

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr y dylai safonau SLM fod yn berthnasol hefyd wrth roi unrhyw fath o gefnogaeth i weddill y diwydiant. Pe nai bai hynny'n digwydd, dadleuodd yr ymatebwyr y byddai'n annheg ac y byddai'n tanseilio unrhyw fanteision neu fuddion amgylcheddol a grëir gan ffermwyr.

Teimlai nifer llai o ymatebwyr na ddylai safonau SLM fod yn berthnasol wrth gefnogi'r diwydiant. Roedd y rheini a oedd y blaid hyn yn dadlau y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu cyflenwadau bwyd ac mai prif ddiben y sector amaethyddol oedd darparu bwyd o ansawdd da. O'r safbwynt hwn, byddai cefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi ehangach yn helpu i ddiogelu cyflenwadau bwyd.

6.3 Adnoddau Cyfyngedig

Mynegwyd pryderon y gallai cefnogi'r gadwyn gyflenwi ehangach leihau'r adnoddau sydd ar gael i ffermwyr. O'r safbwynt hwn, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bryderon bod y cyllid yn gyfyngedig a bod perygl y byddai cwmnïau mwy o faint, sydd â chyfleusterau canolog, yn tanseilio'r amcanion cynaliadwyedd ehangach. Cyfeiriodd eraill wedyn at y ffaith bod cyfleusterau prosesu lleol yn cau a bod tuedd i ddefnyddio cyfleusterau canolog, mwy o faint. Roedd hyn yn cael effaith niweidiol ar les anifeiliaid, allyriadau carbon, a phŵer bargeinio ffermwyr:

Mae'n debygol y bydd targedu buddsoddiad drwy'r gadwyn gyflenwi yn lleihau'r buddsoddiad ar y ffermydd eu hunain. Dylid targedu'r buddsoddiad hwn oddi ar ffermydd yn effeithiol, fel bod busnesau ffermio'n fwy proffidiol a chadarn. Mae angen cydbwysedd addas wrth roi cyllid, fel nad yw ffermwyr ar eu colled. Gan hynny credwn mai ffermwyr a rheolwyr tir ddylai gael y rhan fwyaf o'r cymorth ariannol drwy'r cynllun SLM.

Y Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Fyd Natur

7 Y Fframwaith Rheoleiddio

Crynodeb o'r Cynigion

Rhan bwysig o'r darlun yw'r safonau rheoleiddio, monitro a gorfodi sy'n berthnasol i ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill. Gall rheoleiddio effeithiol roi eglurder i ffermwyr a busnesau, gwarchod safonau a helpu i gynnal ein hadnoddau naturiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig creu fframwaith rheoleiddio newydd, symlach i amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'n cynnig y dylai hwn gynnwys safonau gofynnol clir, monitro clyfar a chamau gorfodi cymesur. Er mwyn sicrhau tegwch, dylai'r fframwaith rheoleiddio fod yn berthnasol i bob ffermwr, boed yn cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ai peidio.

Cwestiwn yr Ymgynghoriad

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am sut y gallai Llywodraeth Cymru wella'r system reoleiddio bresennol a datblygu fframwaith rheoleiddio newydd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried sut y gellid gwella'r broses reoleiddio a sut y dylid ei monitro a'i gorfodi.

Crynodeb o'r Ymatebion

- Pwysleisiodd nifer helaeth na ddylai unrhyw fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol fod yn feichus na chynyddu costau.
- Dylai unrhyw gamau gorfodi hefyd fod yn gymesur a dylid gweithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir i roi sylw i broblemau a'u datrys.
- Pwysleisiodd nifer helaeth na ddylai rheoleiddio amharu ar gystadleurwydd ffermwyr o'u cymharu â ffermwyr yng ngweddill y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

7.1 Rheoleiddio Syml ac Effeithiol

Thema o bwys yn nifer helaeth o'r ymatebion oedd pwysigrwydd rheoleiddio syml ac effeithiol. O'r safbwynt hwn, ni ddylai unrhyw system reoleiddio fod yn feichus i ffermwyr ei deall nac i gydymffurfio â hi. Ar y cyfan, croesawai nifer o ffermwyr y pwyslais ar geisio datblygu fframwaith symlach. Roedd y farn hon yn aml yn cael ei mynegi gan bobl a gredai bod y system reoleiddio bresennol yn rhy gymhleth:

Yn sicr mae angen symleiddio'r rheoliadau presennol, a dylent gynnwys yr hyn sy'n ofynnol yn gyfreithiol yn unig. Ni ddylai'r rheoliadau fod yn rhy gymhleth, ac ni ddylid ychwanegu rheoliadau eraill pan nad oes angen y rheini'n gyfreithiol.

Ffermwr Defaid

Cytunwn fod y system bresennol yn rhy gymhleth, a byddem yn cefnogi cymryd camau i'w gwneud yn fwy syml ac yn haws i ffermwyr ei deall. Croesawn gamau i ddod â'r deddfwriaeth ynghyd mewn un fframwaith trefnus.

Ffermwr Garddwriaethol

Fodd bynnag, roedd pryderon y byddai'r cynigion ehangach, a'r rheini'n cwmpasu meysydd helaeth wrth hyrwyddo cynaliadwyedd a nwyddau cyhoeddus, ynddynt eu hunain yn creu fframwaith rheoleiddio cymhleth. Yn hyn o beth, ni fyddai'r cynigion yn lleihau'r baich rheoleiddio. Gallai hyn gyfyngu ar allu'r cynigion i fynd i'r afael â phroblemau ehangach fel lefelau straen a gorbryder ymhlith ffermwyr:

Byddai NFU Cymru yn pwysleisio bod y gofynion ar ffermwyr i ddilyn ac i ddangos eu bod yn cydymffurfio â lefelau cynyddol o gamau rheoleiddio cymhleth wedi bod yn destun pryder i deuluoedd sy'n ffermio ers tro byd. Mae busnesau ffermio yng Nghymru – yn bennaf, microfusnesau yn y sector BBaCh – yn gorfod gweithio mewn amgylchedd rheoleiddio hynod o gymhleth sy'n newid yn barhaus, a hwnnw'n ymwneud ag ystod anferth o bynciau a meysydd. Mae tystiolaeth dda bod rheoleiddio'n effeithio'n negyddol ar hyder ffermwyr, gyda rheoleiddio a deddfwriaeth yn aml yn ffactor sy'n dylanwadu ar eu hyder yn ôl arolwg hyder blynyddol yr NFU. Mae rheoleiddio'n cyfrannu'n fawr at straen a gorbryder yn y sector, fel y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl wedi'i gydnabod.

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

7.2 Camau Gorfodi Cymesur

Ynghyd â galw am system reoleiddio symlach, dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai'r camau gorfodi a'r cosbau fod yn gymesur ac yn deg. Awgrymodd ymatebwyr y dylid cyflwyno system sy'n gweithredu ar lefelau gwahanol, yn ôl pa mor ddifrifol yw'r achos o dorri'r rheolau. Dylai hynny ddechrau gyda rhybudd yn hytrach na chosb neu ddirwy'n syth. Er mwyn gwella'r cyfraddau cydymffurfio, galwodd ymatebwyr eraill am osod cosbau ar lefel sy'n sylweddol uwch na'r gost o gydymffurfio. At hynny, dylai unrhyw gosb fod yn gymesur i faint y busnes er mwyn sicrhau bod y busnes yn teimlo effaith y gosb honno.

Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn pryderu bod y system reoleiddio bresennol yn rhy fygythiol ei natur, a hynny'n gwaethygu achosion o straen a gorbryder ymhlith ffermwyr. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at effaith gweithdrefnau rheoleiddio a gorfodi bygythiol ar iechyd meddwl pobl:

Ar hyn o bryd, rheoleiddio yw un o'r pethau sy'n achosi'r mwyaf o bryder a straen i ffermwyr. Mae iechyd meddwl nifer o bobl yn gwaethygu oherwydd pwysau ychwanegol y system reoleiddio.

Ffermwr Gwartheg Eidion

Cyfeiriodd ymatebwyr at bwysigrwydd ystyried effaith unrhyw system reoleiddio yn y dyfodol ar iechyd meddwl. Awgrymwyd y gallai dull mwy ymgynghorol o reoli newid a gorfodi fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth, yn ogystal â datblygu perthynas well rhwng ffermwyr a Llywodraeth Cymru. Dywedodd nifer fod tuedd i'r rheoliadau presennol arwain at gosbi heb drafod yr atebion posibl â ffermwyr yn gyntaf.

7.3 Parhau'n Gystadleuol

Thema o bwys oedd y gallai rheoliadau wedi'u seilio ar SLM arwain at lai o gystadleurwydd, gydag ymatebwyr o'r diwydiant ffermio'n pryderu y gallai system reoleiddio wahanol i un y Deyrnas Unedig a gweddill yr Undeb Ewropeaidd roi amaethyddiaeth Cymru o dan anfantais:

Bydd cystadleuwyr mewn gwledydd a rhanbarthau eraill yn parhau i gael cefnogaeth uniongyrchol, tra bo'r cynigion presennol yn awgrymu y bydd yn rhaid i ffermwyr Cymru gydymffurfio â llawer mwy o reolau a chyfyngiadau, gweithio'n galetach a cholli mwy o dir amaethyddol er mwyn cael taliadau. Byddai hyn yn amlwg yn golygu bod ffermwyr Cymru o dan anfantais yn gystadleuol.

Ffermwr Defaid

Blaenoriaeth o bwys i ymatebwyr oedd sicrhau bod y drefn reoleiddio'n cyd-fynd â'r drefn yng ngweddill y Deyrnas Unedig, a hynny er mwyn parhau'n gystadleuol, er i nifer bychan o ymatebwyr awgrymu y dylai unrhyw fframwaith rheoleiddio gyd-fynd cymaint ag y bo modd â'r drefn yn yr Undeb Ewropeaidd at ddibenion masnach:

Rhaid i'r fframwaith rheoleiddio hefyd ystyried y safonau sy'n cael eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, yn enwedig pan fydd y nwyddau a gynhyrchir o dan y safonau gwahanol hynny ar gael i ddefnyddwyr yng Nghymru. Nid yn unig y mae hynny'n tansellio cynhyrchu domestig ond mae'n golygu bod safonau is yn gallu parhau mewn awdurdodaethau eraill. Os teimlir ei bod yn bwysig cyflwyno lefel newydd o reoleiddio ar gyfer cynhyrchu amaethyddol, a honno'n wahanol i'r drefn mewn mannau eraill, byddai cyfiawnhad dros ddisgwyll i gymuned ffermio Cymru gael ei hamddiffyn rhag cynhyrchion o safon is a fewnforir i Gymru, cynhyrchion a fyddai'n anghyfreithlon gartref.

Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru

7.4 Hunanfonitro

Cymysg oedd y farn am y defnydd o hunan-gofnodi/asesu o dan fframwaith rheoleiddio newydd. Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid hunanasesu yn dadlau y byddai hyn yn lleihau nifer yr archwiliadau y byddai eu hangen ac yn lleihau'r baich ar aseswyr, gan ryddhau adnoddau yn sgil hynny. At hynny, byddai hunanwerthuso yn cynyddu dealltwriaeth ffermwyr o'r rheoliadau, ac o ganlyniad yn gwella'r cyfraddau cydymffurfio, yn ôl yr ymatebwyr hyn.

Awgrymodd ymatebwyr y byddai system ar gyfer ennill cydnabyddiaeth yn gallu bod yn ffordd o wella'r gwaith archwilio ymhellach. Fodd bynnag, mynegodd nifer llai o ymatebwyr bryderon ynghylch pa mor effeithiol fyddai hunanwerthuso, gan ddadlau ei fod yn rhy oddrychol a bod risg y gallai pobl ei gamddefnyddio. Credai'r ymatebwyr a rybuddiodd rhag gorddibynnu ar hunanfonitro y byddai'n cyfrannu at diffyg presenoldeb a chydymffurfio rheoleiddiol:

Nid oes dim yn well na chamau gorfodi effeithiol, wedi'u harwain gan wybodaeth, ac wedi'u seilio ar risg. Mae achos diweddar Southern Water yn Lloegr yn dangos ar lefel uchel sut y gellir camddefnyddio hunanasesu. Mae'n system sydd cystal â chreadigrwydd yr awdur a thrylwyrdd yr aseswr, ac mae'n un sy'n edrych yn ôl, felly os cydnabyddir methiannau maes o law (os gwneir hynny o gwbl) – bydd unrhyw niwed eisoes wedi'i wneud.

Sefydliad Amgylcheddol

7.5 Rhoi Cwmpas Ehangach i'r Rheoleiddio

Credai nifer o ymatebwyr fod cwmpas y fframwaith rheoleiddio yn rhy gyfyngedig, gan awgrymu bod angen cynnwys mwy o feysydd. Ymhlith y rhain roedd gwarchod lles anifeiliaid, gwarchod yr amgylchedd hanesyddol, a rheoleiddio prosesu slyri, silwair ac olew tanwydd. Dadleuodd ymatebwyr y byddai gwell rheoleiddio a chamau gorfodi ym mhob un o'r meysydd hyn yn arwain at fanteision amgylcheddol sylweddol.

7.6 Camau Gorfodi

Teimlai ymatebwyr yn gryf y dylai rheoliadau SLM fod yn berthnasol i bob ffermwr a rheolwr tir, boed nhw'n cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ai peidio. Teimlid bod hyn yn hanfodol er mwyn creu'r manteision amgylcheddol a fyddai fel arall wedi'u tanseilio pe na bai'r rheoliadau SLM yn berthnasol i'r holl ddiwydiant.

Dywedodd nifer bychan o ymatebwyr fod yn rhaid i sefydliad diduedd gyflawni'r gwaith asesu a monitro. Teimlid bod hyn yn angenrheidiol er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau ac i sicrhau tegwch wrth asesu achosion o dorri'r rheolau a chyflwyno cosbau.

7.7 Pryderon am roi'r Fframwaith Rheoleiddio ar Waith

Cododd lleiafrif o ymatebwyr bryderon cryf am y diffyg camau gorfodi sydd wedi'u cymryd yn y gorffennol, ac o ganlyniad, roeddent am weld gweithdrefnau gorfodi llymach a chadarnach o dan y fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol.

Cwestiynodd nifer bychan o ymatebwyr hefyd pam fod angen cyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd o gwbl, gan anghytuno bod angen newidiadau. Ymhlith y grŵp hwn o ymatebwyr, mynnai rhai fod ffermwyr yn cael digon o archwiliadau ac yn gorfod dilyn rheoliadau helaeth eisoes. Dadleuodd eraill na fyddai creu fframwaith newydd yn gost-effeithiol, a bod y fframwaith presennol yn ddigonol i gyflawni amcanion SLM.

8 Y Cyfnod Pontio

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfnod pontio wrth symud o'r trefniadau presennol i'r cynllun newydd arfaethedig. Pwrpas cyfnod pontio fyddai sicrhau bod digon o amser i ffermwyr a Llywodraeth Cymru baratoi ac yna symud o'r cynlluniau presennol i'r trefniadau newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfnod pontio a fydd yn para sawl blwyddyn. A chofio'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit, nid oes modd iddynt ddiffinio natur na hyd y cyfnod pontio. Ar hyn o bryd, maent yn gofyn i bobl am eu barn ynglŷn â'r hyn y mae angen i'r cyfnod pontio'i gyflawni a'r opsiynau ar gyfer symud ffermwyr o'r cynlluniau presennol i'r cynllun arfaethedig newydd.

Cwestiwn Ymgynghori

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn am ddiben a chynllun cyfnod pontio. Hefyd, gofynnwyd iddynt ystyried manteision cymharol cyfnod pontio wedi'i reoli, yn ogystal â sut y gellid symleiddio'r CAP a'i wella ar gyfer gweddill ei oes.

Crynodeb o'r Ymatebion

- Er bod y farn yn amrywio, roedd mwy o gefnogaeth i bob golwg o blaid cael cyfnod pontio hwy a fyddai'n para bum mlynedd neu ragor.
- Roedd yr ymatebwyr yn dweud yn aml fod yr ansicrwydd ynghylch Brexit yn gosod heriau o ran pennu natur a hyd priodol y cyfnod pontio.
- Awgrymwyd yn aml fod cynllun peilot yn broses bwysig ar gyfer datblygu a phrofi agweddau ar y cynigion cyn eu lledaenu'n ehangach.
- O blith y tri opsiwn a gynigir yn yr ymgynghoriad, opsiwn A oedd yr un y cyfeiriwyd ato amlaf yn yr ymatebion. Serch hynny, ni wnaeth y rhan fwyaf helaeth o'r ymatebwyr na chrybwyll na chefnogi yr un o'r opsiynau.

8.1 Hyd y Cyfnod Pontio

Roedd yr ymatebion yn amrywio'n fawr iawn ynglŷn ag faint y dylai'r cyfnod pontio barhau. Roedd rhai o'r ymatebwyr o blaid cyfnod pontio cyflym a syml, ond, i bob golwg, roedd mwy o gefnogaeth o blaid trefn fwy graddol er mwyn i Lywodraeth Cymru a'r gymuned ffermio baratoi ar gyfer yr addasiad. Roedd y rheini a oedd o blaid cyfnod pontio hwy, mwy graddol, yn cynnig amserlenni a oedd yn amrywio o bum mlynedd i 20 mlynedd:

A llawer o aelodau'n grŵp ni'n cynnig cyngor i ffermwyr, rydym yn unfryd yn gofyn am ddod a'r hen gynllun i ben yn lân ac ar yr un pryd ag y bydd y cynllun newydd yn dechrau. Byddai pum mlynedd yn ddigon o amser i fodlu a threialu'r cynllun newydd ac ymgynghori yn ei gylch, yn ogystal ag amser ar gyfer yr addasiadau y byddai eu hangen ar ffermydd ac mewn busnesau cysylltiedig â choedwigaeth er mwyn ymdopi a'r newidiadau disgwylidig yn y ffocws ar gyfer cyflawni.

Merched mewn Amaeth

Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr eraill o blaid dull mwy hyblyg, un a fyddai'n ymateb i amgylchiadau wrth iddynt newid:

Rydym yn cytuno bod angen amser a sensitifrwydd er mwyn ymdrin â'r cyfnod pontio. Mae angen iddo fod yn raddol, ond mae Brexit yn mynd i fod yn sioc sydyn gyda newidiadau cyflym, felly mae'n rhaid i ninnau hefyd fod yn chwim gan ymaddasu i sicrhau bod yr effaith a allai fod yn enfawr gyn lleied ag y bo modd. Dylid cofio y gall fod angen inni weithredu mewn ffyrdd cwbl wahanol ac na fydd y modelau busnes sydd ar waith ar hyn o bryd yn gweithio ragor. Dylid cynllunio cymhellion i ysgogi newid ar lefel genedlaethol er mwyn newid strwythur a natur yr adnodd coedwigaeth yng Nghymru er mwyn iddo sicrhau canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol economaidd integredig mewn ffordd gost-effeithiol.

Sefydliad Siartredig y Coedwigwyr

8.2 Ansicrwydd ynghylch Brexit

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu cynnig sylwadau am beth fyddai'r cyfnod pontio mwyaf priodol, a chofio'r ansicrwydd parhaus yn sgil Brexit o ran ariannu, amseru a chysylltiadau masnach. Roedd rhai ymatebwyr hyd yn oed yn teimlo nad oedd amseru'r ymgynghori'n dda iawn, ac ystyried y diffyg cynnydd gyda thrafodaethau Brexit adeg ei gyhoeddi:

Mae'r penderfyniad ynghylch pontio'n un dyrys ac mae'n anodd cynnig sylw am hyn heb wybod beth fydd goblygiadau Brexit, faint o arian fydd ar gael a pha mor barod yw Llywodraeth Cymru i redeg y cynllun.... Dylai arfau i helpu busnesau i ddod yn fwy effeithlon fod ar gael yn rhwydd drwyddi draw; serch hynny, gadewch inni fod yn onest: faint bynnag o arbedion effeithlonrwydd a wneir mewn busnesau, all hynny ddim gwneud iawn am y golled anferth ddaw o golli'r Cynllun Taliad Sylfaenol. Felly, er y dylai'r neges fod yn glir y bydd y Cynllun Taliad Sylfaenol yn dod i ben ac y caiff ei ddileu o dipyn i beth, dylid cyfleu'n glir beth yw'r dewisiadau amgen er mwyn i ffermwyr allu cofrestru cyn gynted ag y bo modd i sicrhau cyfnod pontio llyfn.

Ffermwr Defaid a Da Byw

O'r safbwynt hwn, dadleuai rhai o'r ymatebwyr y dylid cadw'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn y dyfodol rhagweladwy:

Nid welaf ddim o blaid y tri chyfnod pontio a gynigir, oherwydd nid yw hyn yn ystyried sefyllfa ariannol wael amaethyddiaeth ar hyn o bryd, pris eidion ar ei isaf ers 10 mlynedd, prisiau wyn yn suddo er bod pris cig oen wedi codi i'r entychion drwy'r byd. Nid yw ychwaith yn ystyried ansicrwydd Brexit ac effeithiau'r tariffiau. Felly, rhaid cadw'r Cynllun Taliad Sylfaenol fel y mae ar hyn o bryd.

Ffermwr Da Byw

8.3 Rôl Cynlluniau Peilot yn y Cyfnod Pontio

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn galw am gynnwys profion peilot naill ai cyn cychwyn neu yn ystod y cyfnod pontio, yn hytrach na chyflwyno cynllun newydd drwyddi draw. Gwelid hyn yn ddull pwysig o sicrhau bod y cynigion yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol:

A chofio nad ydym eto wedi ymadael ag Ewrop ac nad ydym yn gwybod beth yw'r amserlen, rwy'n meddwl mai'r ffordd orau yw parhau â'r Cynllun Taliad Sylfaenol wrth inni ddatblygu'r cynllun arfaethedig newydd hwn a'i roi ar brawf. Mae gan Lywodraeth Cymru system ar-lein a Chynllun Taliad Sylfaenol sy'n gweithio, felly pam newid hyn cyn datblygu cynllun newydd yn llwyr. Rhaid i'r cynllun arfaethedig newydd weithio cystal neu'n well pan gaiff ei roi ar waith.

Unigolyn

Mae'r rhaglen yn uchelgeisiol iawn a bydd angen proses gylchol o gynllunio, gweithredu, adolygu a diwygio. Efallai y bydd angen i'r cyfnod bontio gydredeg ârhau elfennau o ddatblygu'r cynllun.

Sefydliad

Mae'n amlwg bod rhoi'r cynllun newydd ar waith yng nghyd-destun Brexit yn gryn her a bod peryglon sylweddol ynghlwm wrth hyn. Mae'r rheini'n amrywio, er enghraifft o nifer fach yn cymryd rhan oherwydd diffyg eglurder rheolau'r cynllun i systemau gweinyddol yn methu ag ymdopi â nifer fawr yn cymryd rhan. Er bod y ddogfen ymgynghori'n dweud y gellid manteisio ar brofiad cyflwyno Glastir, a chofio bod yr amgylchiadau cyffredinol yn wahanol iawn, credaf y gallai fod yn ddoeth cynnal cynllun peilot (ar sail ddaearyddol) i brofi sut y byddai'r cynllun yn gweithio yn ei gyflawnder o dan yr amgylchiadau economaidd newydd. Dylai'r cynllun peilot gynnwys pob agwedd ar gwaith; o'r cyfarwyddyd i'r taliadau, ac o'r gwaith cynghori i reoleiddio a gorfodi.

Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.4 Opsiynau A, B ac C

Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na chrybwyll na chefnogi'r un o'r tri opsiwn a restrwyd yn yr ymgynghoriad. O blith y rheini a soniodd yn benodol am un o'r opsiynau, y dewis a fynegwyd amlaf oedd opsiwn A, h.y. cyflwyno'r cynigion yn raddol, fesul cam.

9 Dull Dadansoddol

Crynodeb o'r Cynigion

Roedd Llywodraeth Cymru yn sylweddoli pwysigrwydd deall effeithiau posibl newid yn sylweddol y dull a ddefnyddir i gefnogi'r sector. Felly, maent wedi cynnig cynllun dadansoddi cynhwysfawr i fapio a deall effeithiau posibl y cynigion. Drwy gwblhau datblygu Dull Integredig Asesu Effaith i fodelu effeithiau'r cynigion, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gosod sail dystiolaeth gynhwysfawr a thrwyadl i gynnal a llywio polisiau yn y dyfodol.

Cwestiwn Ymgynghori

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am y dull dadansoddol a ddisgrifiwyd yn y ddogfen ymgynghori. At hynny, gofynnwyd iddynt ystyried yr ystod o effeithiau y dylid eu cynnwys yn y dadansoddiad, yn ogystal â'r dulliau a'r technegau y dylid eu rhoi ar waith er mwyn deall yr effeithiau posibl.

Crynodeb o'r Ymatebion

- O blith yr ymatebwyr hynny a fynegodd farn, roedd consensws cyffredinol bod y dull o asesu effaith y cynigion yn ymarfer pwysig a gwerthfawr.
- Un pwynt pwysig lle'r oedd anghytundeb oedd ynghylch yr hyn a fyddai'n ffocws penodol i unrhyw ddadansoddiadau o'r effeithiau, ac roedd gwahanol ymatebwyr yn arddel gwahanol flaenoriaethau.
- Roedd un garfan o ymatebwyr, er enghraifft, yn dymuno gweld y cynigion yn cael eu hasesu ar sail Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Roedd eraill yn meddwl bod gormod o bwyslais neu ddiffyg pwyslais ar faterion penodol yn y cynigion - materion megis yr effeithiau ar yr iaith neu'r amgylchedd.
- Teimlai rhai fod y cynigion yn or-gymhleth, ac roeddent yn awyddus i weld dull rwyddach a symlach o ddeall a dadansoddi'r effeithiau.

Dyma'r cwestiwn a gafodd y sylw lleiaf gan ymatebwyr yn yr ymgynghoriad drwyddo draw. Nid oedd modd dirnad beth oedd safbwynt yr ymatebwyr mewn 311 o'r ymatebion (61.2 y cant).

9.1 Pwysigrwydd Dadansoddi Cynhwysfawr

O blith yr ymatebwyr a wnaeth gynnig barn a safbwynt, roeddent yn cytuno'n gyffredinol bod asesu'r effeithiau posibl yn rhan bwysig a gwerthfawr o ddatblygu'r cynigion. Roedd y rhain yn meddwl ei bod yn hanfodol dadansoddi goblygiadau'r cynigion yn drwyadl er mwyn sicrhau bod y diwygiadau dilynol yn effeithiol ac yn effeithlon:

A chofio bod y cynnig i ddileu Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr fesul cam a chyflwyno Cynllun Ffermio Cynaliadwy sydd wedi'i seilïau ar nwyddau cyhoeddus a chanlyniadau amgylcheddol yn golygu'r newidiadau mwyaf radical i'r egwyddorion a fu'n sail i gymorth gwledig ers Deddf Amaethyddiaeth 1947, mae'n amlwg bod angen dadansoddi'n fanwl ac yn drwyadl yr effeithiau posibl ar fusnesau fferm Cymru, cynhyrchu bwyd, sectorau amaethyddol, economïau lleol ac ehangach, cadwyni cyflenwi amaethyddol, cyflogaeth a bywoliaeth, diwylliant a iaith.

Undeb Amaethwyr Cymru

Rydym yn cytuno mai canlyniad trafodaethau Brexit a'r penderfyniad cyllidebol terfynol ynghylch ariannu yng Nghymru yw'r ddau bwynt pwysig sy'n effeithio ar siâp cynnig Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn cefnogi'r modelu a'r profi a gynigir yn Atodiad A a'r cydweithio parhaus â Llywodraeth Cymru wrth lunio dyfodol i'n ffermwyr, ein tirfeddianwyr a'n rheolwyr... ..

Ffermwyr Dyfodol Cymru

Er bod cefnogaeth ar y cyfan o blaid y dull cyffredinol a ddisgrifiwyd yn *Cynaliadwyedd a'n Tir*, roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i weld rhagor o bwyslais ar effeithiau penodol yn y cynigion. Cefndir yr ymatebwyr neu eu diddordeb yn y cynigion oedd yn tueddu i lywio hyn. Roedd y rheini a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â ffermio, er enghraifft, yn tueddu i bwysleisio pwysigrwydd deall goblygiadau'r cynigion ar gyfer refeniw busnesau ffermydd, eu costau ac incwm net y fferm. Ar y llaw arall, barn rhanddeiliaid eraill oedd nad oedd y dull arfaethedig yn mynd yn ddigon pell o ran deall yr effeithiau penodol. Roedd y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, er enghraifft, yn credu bod y cynigion:

...yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ganlyniadau amgylcheddol yn unig ac nad oes sôn am y dull dadansodol o asesu effeithiau ar iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid. Ar dudalen 92, mae adran am roi gwerth ar ganlyniadau amgylcheddol, ond nid oes adran gyfatebol am roi gwerth ar iechyd anifeiliaid a chanlyniadau lles.

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid

Roedd eraill yn awyddus i weld y ffocws yn cael ei ledu i feysydd a gweithgareddau eraill. Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus nad oedd sôn am archwilio effaith bosibl y cynigion ar Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016:

Credwn fod y cyfeiriad at ddiwylliant a threftadaeth yn Atodiad A yn ddiffiniad rhy gyfyng ar dreftadaeth am ei fod yn canolbwyntio'n llwyr ar hamdden. Rydym yn cefnogi'r awydd i ystyried sut y bydd y cynllun arfaethedig yn effeithio ar dreftadaeth, ond rydym yn awgrymu y dylid ehangu hyn i ystyried ystod lawn yr effeithiau posibl ar yr amgylchedd hanesyddol a'r manteision y gallai eu cynnig ac, yn benodol, ar fywyd economaidd ffermydd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd y dylai'r asesiadau o effaith gynnwys dealltwriaeth ehangach o'r dirwedd polisi a rhaglennu wrth foddelu'r gwrth-ffeithiol:

Mae'n bwysig wrth ddeall yr amgylchiadau economaidd posibl ar ôl Brexit a modelu gofodol (camau 1-3) ein bod yn datblygu fframwaith hyblyg er mwyn asesu'n gyflym y newid i'r dirwedd yn sgil Brexit, wrth i hynny ddatblygu... Awgrymir y dylid asesu'r cynigion polisi o'i cymharu â system bresennol (Cam 4) y Cynllun Taliad Sylfaenol. Serch hynny, nid yw'r cynigion polisi yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u cyfyngu i ddisodli system y Cynllun Taliad Sylfaenol, ond hefyd y ffrydiau ariannu a'r gweithgareddau eraill sydd ar hyn o bryd yn cael eu hariannu o dan Golofn 2 (Ariannu'r Cynllun Datblygu Gwledig) y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Felly, byddai'n fuddiol ystyried cynnwys y gweithgareddau hyn (nid dim ond Glastir) a'r ffrydiau ariannu hyn wrth amcangyfrif y 'senario cyn newid'.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dull cyffredinol neu'n awyddus i weld dadansoddiad mwy cynhwysfawr, byddai'n well gan rai weld dull asesu effeithiau symlach a mwy penodol. Tueddai'r rhai a ofynnai am drefn symlach ddweud nad oeddent am weld trefn ddadansoddi or-feichus yn dwyn adnoddau prin y gellid eu targedu'n uniongyrchol at ffermwyr.

9.2 Cysoni â Deddfwriaeth Ehangach

Soniodd nifer o ymatebwyr fod y cynigion yn cysoni'n dda â Deddfwriaeth Ehangach, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2016) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw un o'r darnau mwyaf arloesol o ddeddfwriaeth genedlaethol a welwyd ers degawdau. Mae sicrhau bod dyfodol amaethyddiaeth Cymru'n gyson â'r weledigaeth yn y darn blaengar hwnnw o ddeddfwriaeth yn gam angenrheidiol ac mae gofyn cael data digonol a thryloyw er mwyn cynnal Asesiad Integredig manwl o'r Effeithiau. I sicrhau hyn, byddai'r SFT yn awgrymu bod angen gwneud gwaith modelu sylweddol a thrwyadl i ddadansoddi mewn ffordd gynhwysfawr effaith bosibl y newid polisi ar ffermwyr, busnesau a chymunedau lleol ac i fod yn sail ar gyfer unrhyw benderfyniad. Mae hyn yn arbennig o bwysig, a chofio y caiff y penderfyniadau effaith hirdymor ar ffermwyr a bod angen eu cynllunio yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn iddynt sicrhau cyn lleied o risg â phosibl ac er mwyn gwarchod bywoliaeth pobl.

Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy

9.3 Pwysigrwydd Cydlunio

Ochr yn ochr â sicrhau bod asesiadau trwyadl o'r effeithiau'n bwrw gwreiddiau, roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at ddatblygu'r cynigion, drwy broses gydlunio ehangach. Gwelid bod manteisio ar arbenigedd a phrofiad y prif grwpiau o randdeiliaid, gan gynnwys ffermwyr a rheolwyr tir, yn sicrhau bod y cynigion yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r heriau sy'n wynebu'r sector. Teimlid y byddai dull o'r fath yn arwain at ragor o berchnogaeth ac ymgysylltu gan randdeiliaid yn y broses. O'r safbwynt hwn, gallai hefyd arwain at ganlyniadau mwy effeithiol, gan gynnwys cydymffurfio.

10 Y Gymraeg

Crynodeb o'r Cynigion

Fel sy'n wir am holl bolisiau a rhaglenni Llywodraeth Cymru, ystyrir sut y bydd diwygiadau'n effeithio ar y Gymraeg. Roedd y cynigion yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan y sector mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys drwy gynnig cyfleoedd gwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg er mwyn ystyried goblygiadau'r cynigion ar gyfer y Gymraeg.

Cwestiwn Ymgynghori

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am yr effaith a gâi'r cynigion ar y Gymraeg, yn benodol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Crynodeb o'r Ymatebion

- Cydnabyddiaeth eang o bwysigrwydd economïau gwledig iach, amaethyddiaeth yng Nghymru, a ffermydd bach teuluol i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Pryder i bob golwg nad yw'r cynigion yn cynnig digon o gefnogaeth a gwarchodaeth i gymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n helaeth.
- Cefnogaeth gyffredinol i gyflwyno'r cynllun yn ddwyieithog.

10.1 Pwysigrwydd Amaethyddiaeth a'r Gymraeg

Pan ofynnwyd am eu barn am effaith y cynigion ar y Gymraeg, roedd llawer o'r ymatebwyr cyfleu eu dealltwriaeth bod ffermio'n ganolog i fywiogrwydd cymunedau cefn gwlad, gan gynnwys y rheini sy'n defnyddio'r Gymraeg yn bennaf yn eu bywyd bob dydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn meddwl yn gyffredinol y gallai'r cynigion effeithio er gwaeth ac mewn ffordd anghymesur ar y Gymraeg petai'r trefniadau economaidd yn y dyfodol yn arwain at ddirywiad yn ffermio Cymru. Roedd hyn yn cael ei sbarduno'n rhannol gan y dybiaeth ddealedig na fyddai'r cymorth ariannol yn y dyfodol mor hael â'r trefniadau presennol:

Rwyf yn meddwl y gallai hyn effeithio er gwaeth ar y Gymraeg petai'n golygu bod llawer o ffermydd llai eu maint yn mynd i'r wal. Gallai hyn hefyd effeithio ar fusnesau cefn gwlad, a llawer o'r rheini hefyd yn Gymraeg eu hiaith. Petai pobl yn mudo i fannau eraill, byddai hyn hefyd yn cael effaith er gwaeth.

Unigolyn, Fferm Gymysg

Dywedodd ymatebwyr hefyd y gallai'r cynigion waethygu problemau sy'n bodoli eisoes mewn cymunedau gwledig sy'n tanseilio'r Gymraeg, gan gynnwys diffyg cyfleoedd am waith a diboblogi gwledig. O'r safbwynt hwn, roedd y cynigion felly'n hollbwysig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd cymunedau gwledig a Chymraeg eu hiaith:

Mae'n anochel y bydd unrhyw newid polisi a allai ddiwygio mewn ffordd radical a herio dyfodol ffermio yng Nghymru yn fygythiad i'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn ffynnu mewn cymunedau gwledig yng Nghymru. Felly, drwy ddiogelu dyfodol llewyrchus i'r diwydiant, dylai hynny warchod datblygu'r iaith; oni lwyddir i wneud hyn, mae'n debygol y bydd yr iaith yn crebachu eto fyth mewn cymunedau gwledig, oherwydd bydd strwythur y cymunedau hynny'n darnio.

Ffermwyr Unigol

Oherwydd bod y Gymraeg yn gryfach yn y sector amaethyddol nag yn yr un sector arall, a bod y Saesneg yr un mor gryf ym mhob sector, bydd unrhyw effaith er gwaeth ar amaethyddiaeth yn sgil y fframwaith hwn yn effeithio mwy ar y Gymraeg nag ar y Saesneg ac, felly, bydd yn golygu ei bod yn cael ei thrin yn llai ffafriol.... Heb dargedu'r cymorth i ffermydd bach teuluol, a heb sefydlogrwydd, bydd y Gymraeg yn dioddef.

Sefydliad, Fferm Ddefaid, Ymateb OL-184

Teimlai rhai ymatebwyr fod y cynigion yn cynnig cyfleoedd newydd i hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd y safbwynt hwn yn seiliedig ar bwysigrwydd sicrhau bywiogrwydd economaidd cymunedau gwledig, yn ogystal a bod cyfleoedd deniadol a thymor hir ar gyfer gwaith ar gael:

Bydd cefnogi sector amaethyddol amrywiol a bywiog a busnesau cysylltiedig yn y gadwyn gyflenwi yn annog pobl ifanc cymunedau Cymraeg eu hiaith – boed y rheini o deuluoedd ffermio neu beidio – i deimlo eu bod yn gallu adeiladu gyrfa dda heb orfod ymadael â chefn gwlad.

Unigolyn, Fferm Gymysg

Yn fwy uniongyrchol, soniodd rhai ymatebwyr am bwysigrwydd darparu'r holl gymorth a'r rhaglenni'n ddwyieithog. O'r safbwynt hwn, mae dwyieithrwydd yn hwyluso ac yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg:

Mae deunydd cyfathrebu presennol y Cynllun Taliad Sylfaenol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a dylid eu defnyddio yn y cynlluniau newydd. Er nad oes tystiolaeth uniongyrchol sy'n cysylltu'r Cynllun Taliad Sylfaenol â nerth y Gymraeg mewn ardaloedd gwledig, mae'n rhesymol awgrymu bod y Cynllun Taliad Sylfaenol wedi bod yn ffactor nodedig yn gwarchod yr iaith. Pan fydd ffermwyr/tirfeddianwyr/rheolwyr am drafod eu busnes yn Gymraeg, dylid annog a chefnogi hyn.

Ffermwyr Dyfodol Cymru

10.2 Comisiynydd y Gymraeg

Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod y pwyntiau hyn. Er bod y comisiynydd yn cydnabod y cysylltiad pwysig rhwng y Gymraeg ac amaethyddiaeth, roedd yn awyddus i bwysleisio nad oedd twf economaidd ar ei ben ei hun yn ddigon i gynnal a chryfhau'r Gymraeg. O'r safbwynt hwn, dylai cynllunio ar gyfer yr iaith a chynaliadwyedd ehangach cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith fod yn rhan hanfodol o gynllunio Llywodraeth Cymru..

Cynigiodd y comisiynydd asesiad manwl o effaith bosibl y cynigion ar y Gymraeg. Yn eu hasesiad, roeddent yn deall cyfyngiadau'r cymorth a roddid ar hyn o bryd drwy'r Cynllun Taliad Sylfaenol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg. Roeddent yn cytuno bod y cynigion yn cynnig cyfle pwysig i fynd i'r afael â'r diffygion hyn, yn ogystal a sicrhau bod polisiau a rhaglenni yn y dyfodol yn fwy o gefn i'r Gymraeg.

Rydym yn cytuno â'r asesiad hwn ac yn croesawu'r gydnabyddiaeth i'r Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori. Mae'n cynnig sail dda ar gyfer cyflwyno gweithdrefnau gwell. Serch hynny, mae'n anodd gweld o'r ddogfen ymgynghori sut y bydd y polisi newydd yn llwyddo lle mae'r Cynllun Taliad Sylfaenol wedi methu.

Comisiynydd y Gymraeg

Nid oedd y comisiynydd yn glir ychwaith sut y rhoddid cefnogaeth i ganlyniadau cymdeithasol ehangach yng nghyswllt y Gymraeg drwy'r cynigion. Roedd y comisiynydd yn gweld fframwaith yr SLM yn un nad oedd yn annog dim gamau penodol i gefnogi'r Gymraeg. Y tu hwnt i dargedu'r arian yn ddaearyddol i gyfeiriad ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf, nid oedd y comisiynydd yn cynnig cynigion penodol ynghylch pa gamau a allai gywiro'r diffyg hwn. Awgrymodd y comisiynydd y byddai angen ystyriaeth ac ymchwil bellach er mwyn gweld sut y gallai'r cynigion greu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y Gymraeg.

11 Ystyriaethau Pwysig

Roedd barn a safbwyntiau'r ymatebwyr gyda golwg ar gynigion yr ymgynghoriad yn amrywio. Roedd gwahaniaeth barn a chryn amrywiadau yng nghanfyddiadau gwahanol grwpiau o randdeiliaid, gan gynnwys ynghylch goblygiadau posibl y cynigion.

Drwyddi draw, roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid bwriad a chyfeiriad y cynigion. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn crybwyll amodau yn gefn wrth fynegi'r gefnogaeth honno. Roedd y materion a godwyd yn amrywio ac yn tueddu i ganolbwyntio ar fanylion y cynigion. Roedd rhai ymatebwyr, er enghraifft, yn teimlo y dylai'r fframwaith SLM gynnwys canlyniadau mwy penodol, ond eraill yn teimlo y dylai fod yn fwy hyblyg ac yn llai rhagnodol. Hefyd, teimlai eraill y dylid meddwl rhagor am sut y byddai'r cynigion yn gweithio o safbwynt ymarferol.

Roedd barn a chanfyddiadau'r ymatebwyr yn cael eu sbarduno, yn rhannol, gan ystod o ystyriaethau a ffactorau ehangach. Roedd yr ansicrwydd sylweddol yn sgil Brexit yn aml yn dylanwadu ar y ffordd yr oedd pobl yn darllen y cynigion, a hefyd ar eu hatebion. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn darllen y cynigion yng nghyd-destun eu dealltwriaeth o gyfyngiadau'r drefn bresennol, gan fapio'u pryderon am y trefniadau presennol i'r cynigion. Roedd sicrhau sicrwydd ariannol yn destun pryder o bwys i lawer o'r ymatebwyr. At hynny, roedd mynd i'r afael a diraddio'r amgylchedd naturiol a gwrthdroi'r sefyllfa yn bryder mawr, a hynny hyd yn oed yn llawer o'r ymatebion a oedd yn cefnogi'r cynigion.

Roedd yn amlwg hefyd bod pobl yn darllen cynnwys sylweddol y cynigion mewn sawl gwahanol ffordd. Credid yn gyffredinol y byddai'r Gwasanaeth Cynghori'n cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r ddarpariaeth bresennol, er enghraifft, er bod y cynigion yn dweud y byddai'n yn disodli'r gwasanaethau presennol. Mae hyn yn awgrymu, ac ystyried eu cwmpas a'u cymhlethdod, y gall fod rhywfaint o gamdealltwriaeth ynghylch rhai o fanylion mwy cymhleth y cynigion.

Yn gyffredinol, i bob golwg, mae rhywfaint o newid wedi bod ym marn ymatebwyr ynghylch y cynigion diwygiedig o'i chymharu a'r ymatebion i'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir*. Er bod ambell thema bwysig yn parhau, gan gynnwys y farn y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar gynhyrchu bwyd yn ogystal ag ailddatgan pwysigrwydd fframwaith rheoleiddio symlach a mwy cydlynol, mae llawer o'r pryderon pwysicaf a godwyd yn ymddangos yn llai amlwg yn y cynigion diwygiedig.

Dyma rai o'r negeseuon yn nifer o'r ymatebion:

- Mwy o eglurdeb a chyfathrebu ynghylch rhai o'r cynigion, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y fframwaith rheoleiddio a sut y byddai'r Gwasanaeth Cynghori cydweddu â'r gymysgedd o gefnogaeth sydd ar gael eisoes.
- Un o'r prif bryderon sy'n sbarduno'r ymatebion yw sicrwydd ariannol yn ogystal â'r gred bod sefydlogrwydd a pharhad yn bwysig yn enwedig yn wyneb ansicrwydd sylweddol. Roedd y farn hon yn aml yn llywio barn ymatebwyr ynghylch cyfnod pontio hwy.

- O'r safbwyntiau hyn, mae'n bwysig sicrhau bod y cynigion yn symleiddio ac yn lleihau'r baich biwrocraidaidd a rheoleiddiol ar ffermwyr.
- Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'n gyffredinol y ffordd yr oedd yr ymgynghoriad a'r cydlunio'n mynd ati yn unol â'r hyn a bennwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r cynigion.
- Teimlai rhai ymatebwyr y byddai cynnal peilot ar gyfer agweddau ar y cynigion hefyd yn werthfawr wrth ddatblygu polisiau a rhaglenni cadarn a'u rhoi ar waith i gefnogi'r sector.

Atodiad 1: Cwestiynau Ymgynghori

Cwestiwn 1 - Rheoli Tir yn Gynaliadwy (gweler pennod 3)

Beth yw eich barn am y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- a yw'r strwythur manteision, canlyniadau a'r camau i'w cymryd yn ddefnyddiol
- a yw'r manteision a'r canlyniadau yn cwmpasu holl gyfraniadau ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill
- sut ydyn ni wedi disgrifio canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy
- ydyn ni'n iawn i ganolbwyntio ar ddarparu ffrwd incwm am ganlyniadau amgylcheddol
- a fyddai fframwaith polisi arall yn fwy priodol

Cwestiwn 2 - Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (gweler pennod 4)

Beth yw eich barn am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm a'r Cynllun Cynaliadwyedd Fferm gael eu cynnal mewn ffordd gymesur
- sut orau i wobrwyo ffermwyr am y canlyniadau a geir yn sgil y camau y maen nhw'n eu cymryd
- sut y dylai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy gael ei redeg
- pa gymorth busnes ddylai gael ei gynnig i ffermwyr
- pa feini prawf cymhwysedd sydd eu hangen
- a oes angen capio taliadau neu ostwng taliadau
- sut orau i lunio cynllun fyddai'n sbarduno cyllid preifat ychwanegol
- syniadau newydd ar gyfer cefnogi ffermwyr mewn ffordd sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Cwestiwn 3 - Gwasanaeth cyngori (gweler pennod 5)

Beth yw eich barn am wasanaeth cyngori? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- a ydych yn cytuno y dylid sefydlu gwasanaeth cyngori
- swyddogaethau'r gwasanaeth
- pa berthynas ddylai fod rhwng y gwasanaeth cyngori a Llywodraeth Cymru
- maint y gwasanaeth

Cwestiwn 4 - Y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi (gweler pennod 6)

Beth yw eich barn am ddarparu cymorth yr egwyddor y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- a yw'n iawn i gymorth fod yn amodol ar yr egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy
- a yw'r blaenoriaethau arfaethedig yn adlewyrchu'r meysydd iawn i ganolbwyntio arnyn nhw

Cwestiwn 5 - Fframwaith rheoleiddio (gweler pennod 7)

Beth yw eich barn am ein cynigion i wella'r system reoleiddio bresennol a datblygu fframwaith rheoleiddio newydd? Byddech am ystyried o bosibl:

- sut y gellir gwella'r fframwaith rheoleiddio presennol
- cwmpas y fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol
- swyddogaeth bosibl fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol wrth hyrwyddo safonau yng Nghymru
- sut y dylid monitro cydymffurfio â'r rheoliadau
- sut y gellir gorfodi achosion o dorri amodau yn deg a chymesur

Cwestiwn 6 - Trefniadau pontio ac ariannu (cyfeirio at bennod 8)

Beth yw eich barn am ddiben a chynllun y cyfnod pontio? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- yr egwyddorion sydd wedi cael eu cynnig ar gyfer y cyfnod pontio
- manteision cymharol y tri opsiwn ar gyfer y cyfnod pontio
- cynigion eraill ar gyfer y cyfnod pontio
- sut y gellir symleiddio a gwella'r PAC ar gyfer gweddill ei oes

Cwestiwn 7 - Dull dadansoddol (gweler Atodiad A)

Beth yw eich barn am y dull dadansoddol sy'n cael ei amlinellu? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- y gwahanol gamau yn y broses ddadansoddi
- y gwahanol ddulliau a thechnegau mae'n bosibl y bydd eu hangen ar gyfer agweddau gwahanol ar y gwaith dadansoddi
- yr amrediad o effeithiau rydyn ni'n cynnig eu hystyried â'r Asesiad Integredig o'r Effaith

Cwestiwn 8 - Y Gymraeg

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y ddogfen hon yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith a gânt o ran y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effaith? Sut y gellir cynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 9 - Sylwadau eraill

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, rhowch wybod.

Atodiad 2: Ymatebion Sefydliadau

Mae'r adran hon yn rhestru'r sefydliadau a gyfrannodd at yr ymgynghoriad.

Abergavenny Just Food
Abergavenny Transition Town
Aelod o Sir Meirionnydd
Aelodau o Fforwm Amaethyddol Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru
Afonydd Cymru Cyfyngedig
Agricultural Law Association
Ancient Cattle of Wales
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Beacons Water Group
Black Mountains College
Bridgend Local Action Group (LAG)
BSW Timber Group
Busybees
Cadw
Cambrian Mountains Society
Canŵ Cymru
CLA Cymru
Coed Cadw
Coed Cymru
Coed Lleol
Coleg Cambria
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Confor Wales
Cows on Tour
Curlew Country
Cyfeillion Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynghrair dros Dirluniau Dynodedig Cymru
Cynghrair y Gweithwyr Tir Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Cymuned Merthyr Cynog
Cyngor Cymuned Penstrowed
Cyngor Gwynedd
Cyngor Mynydda Cymru
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir Ynys Môn
Cymdeithas Adaryddol Cymru
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru

Cymdeithas Ceffylau Prydain
Cymdeithas Eryri
Cymdeithas Ffermwyr Defaid Mynydd Cymru
Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru
Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol
Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
Cymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol
Cymdeithas Gwartheg Duon Cymreig
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Milfeddygon Gwartheg Prydain
Cymdeithas Milfeddygon Prydain
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
Cymdeithas Swyddogion Archeolegol Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Twristiaeth Gweithgareddau Cymru
Cynhyrchwyr Cig Oen ag Eidion Cymru
Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio
Cynllunwyr Iaith Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
DJP Foundation
Dŵr Cymru
Dyfroedd Cymru
Ecodyfi
Edward Perkins Chartered Surveyors
Farmers Marts (R. G. Jones) Ltd.
FSC UK
FWAG Cymru
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Ynys Môn
Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gâr
Fferm Ddefaid ar Ucheldir Cymru
Ffermwyr Dyfodol Cymru
Fforwm Arfordirol Sir Benfro
Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor
Fforwm Organig Cymru
Fforwm Wiwerod Cymru
Fforymau Mynediad Lleol Gogledd a De Eryri
Game & Wildlife Conservation Trust Wales
Grŵp Cymunedol Cilgwyn
Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru
Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd
Gweithgor
Gweithgor Rheolwyr Hawliau Tramwy Cymru
Gwlad Gwlad
Henbant Permaculture
Historic Houses
Hybu Cig Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Iechyd Da (Gwledig) Ltd. (ID)
Lantra
Menter a Busnes
Merched Mewn Amaeth (Llanbedr Pont Steffan)
Merched y Wawr
National Office of Animal Health Ltd.
NFU Cymru
Open Spaces Society
Organic Growers Alliance CIC
Our Food
Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru
Paramaethu Cymru
Parciau Cenedlaethol Cymru
Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Partneriaeth Natur Sir Gâr
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru
Pembrokeshire Machinery Ring Ltd.
Pembrokeshire Wildfire Group
Pennal Partners
Plantlife Cymru
Prifysgol Caerdydd, Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy
Prosiect y Cynllun Rheoli Cynaliadwy "Building Resilience in Catchments" (BRICs)
Pwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Sir Ddinbych
Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru
Quality Welsh Food Certification Ltd.
RBST
RSPB Cymru
RSPCA Cymru
Rhug Estate Organic Farm
Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-Ddwyrain Cymru
Salmon and Trout Conservation Cymru
Sefydliad Gwy a Wysg
Sefydliad Siartredig Dŵr a Rheolaeth Amgylcheddol
Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol
Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr a Chyngor Archeoleg Prydain
Sefydliad Tirwedd Cymru
Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig
Sirhowy Hill CIC
Slade Farm Organics
Social Farms & Gardens
Sustainable Soils
Synnwyr Bwyd Cymru, Paramaethu Cymru, Y Gynghrair Tyfwyr Organig, Social Farms & Gardens, Landworkers' Alliance Cymru
T. H. Jones & Son
The Vegan Society
Tilhill Forestry Ltd.

Troed Y Rhiw Organics
Tyfu Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
Unite the Union
Volac
W. D. Lewis & Son
W. E. R. Davies and Partners
Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
Y Cerddwyr
Y Cyngor ar gyfer Gwobrau'r Cymdeithasau Amaethyddol Brenhinol
Y Gynghrair Cefn Gwlad
Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol
Y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol
Y Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Fyd Natur
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys
Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed
Ymddiriedolaeth Archeolegol Glamorgan-Gwent
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Yr Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd

Atodiad 3: Ymatebion gan Ymgyrchoedd

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r testunau parod a gyflwynwyd gan bob ymgyrch.

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (n = 857)

Pwnc: Ymateb i ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

Annwyl Weinidog,

Mae hwn yn gyfnod o ansicrwydd dybryd i ffermio yng Nghymru yn sgil Brexit, y diffyg eglurder ynghylch ein perthynas fasnachu yn dyfodol, a'r bygythiad gwirioneddol o adael 'heb gytundeb' ar 31 Hydref. Dylai ein llywodraeth ganolbwyntio ar roi sefydlogrwydd i fusnesau fferm Cymru.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynigion i roi sefydlogrwydd, fel y ceir drwy'r Cynllun Taliad Sylfaenol ar hyn o bryd, er mwyn rhoi sylfaen i gynhyrchu bwyd o ansawdd da. Gallai cael gwared yn raddol â'r gefnogaeth a roddir ar gyfer sefydlogrwydd danseilio pa mor gystadleuol yw ffermio Cymru ac arwain at oblygiadau o bwys i deuluoedd ffermio, yr economi wledig, a'r sector bwyd a diod yn ehangach. Mae camau i roi sefydlogrwydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ffermio Cymru yn gystadleuol ac er mwyn sicrhau parhad cyflenwad o fwyd diogel, fforddiadwy o ansawdd da i'n cenedl, a hynny yng nghyd-destun heriau'r dyfodol i'n system gynhyrchu bwyd fyd-eang.

Mae Ffermio Cynaliadwy a'n Tir yn cynnig dull wedi'i arwain gan gynghorwyr i gael mynediad i'r cynllun, gyda holl elfennau busnes y fferm a'r arferion ffermio presennol yn cael eu hystyried wrth ddod yn rhan o'r cynllun. Byddai'r dull hwn yn galw am lawer o adnoddau, yn fiwrocrataidd, ac yn achosi oedi. Mae'n hanfodol bod cynlluniau'r dyfodol yn syml ac yn ymarferol i ffermwyr allu gwneud cais, ac yn syml ac yn ymarferol i'w rhoi ar waith. Dylid ceisio sicrhau bod y costau rheoli, y costau gweinyddol a'r costau cynghori mor isel ag y bo modd.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig meini prawf cymhwysedd penodol ar gyfer cynllun y dyfodol. Mae'n hanfodol bod cefnogaeth y dyfodol yn targedu ffermwyr tir byw sy'n ysgwyddo'r risgiau busnes o gynhyrchu bwyd, ac ni ddylai roi ffermwyr nad ydynt yn berchen ar y tir y maent yn ei ffermio o dan anfantais.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ymgynghori ymhellach ar fframwaith rheoleiddio symlach, gyda safonau gofynnol clir, monitro clyfar a chamau gorfodi cymesur. Mae baich rheoleiddio i'w deimlo'n drwm ar ffermwyr, mae'n achosi straen a gorbryder, ac mae'n tanseilio'u hyder yn y busnes. Rhaid i system reoleiddio'r dyfodol fod yn gymesur ac wedi'i seilio ar dystiolaeth, ac ni ddylai roi ffermwyr Cymru o dan anfantais gystadleuol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig datblygu ar ei chynnig presennol o gymorth ariannol ac ymarferol i ddatblygu busnesau fferm, a hwnnw'n cael ei roi ar hyn o bryd drwy Cyswllt

Ffermio, y Grant Busnes i Ffermydd, a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Dylid datblygu cymorth busnes ar ôl cynnal gwerthusiad llawn o'r camau presennol i ddangos y gallant ddarparu'r un canlyniadau neu ganlyniadau gwell na'r Cynllun Taliad Sylfaenol.

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod wedi ymrwymo'n gryf i barhau i gefnogi ffermio ac y bydd yn sicrhau bod cyllid a gaiff ei ddychwelyd i Gymru ar ôl Brexit yn mynd tuag at ffermio, ac nad yw'n cael ei wario ar bethau eraill. Rhaid ariannu polisi Llywodraeth Cymru yn ddigonol er mwyn sicrhau twf cynaliadwy yn y sector bwyd a ffermio, gan gefnogi ein ffermwyr i greu bwyd o ansawdd da i safonau o'r radd flaenaf, a chynnal a gwella ein hamgylchedd a chyflawni ein rhwymedigaethau newid hinsawdd ar yr un pryd. Rhaid i bolisi'r dyfodol sicrhau bod ffermio Cymru'n parhau'n gystadleuol yn y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd ac yn fyd-eang.

Defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y canlynol:

- Beth mae ffermio yng Nghymru yn ei olygu i chi
- Eich system ffermio
 - Nifer y bobl rydych chi'n eu cyflogi ar sail amser llawn, rhan amser, contractwyr
 - Nifer y busnesau gwledig rydych chi'n delio â hwy
- Unrhyw brosiectau arallgyfeirio ar y fferm
- Eich cyfraniad chi a'ch teulu at y gymuned leol. E.e. Clybiau Ffermwyr Ifanc, yr ysgol leol, y cyngor cymuned, sioeau lleol, yr eisteddfod, timau chwaraeon ac ati.

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (n = 1,889)

Rydym yng nghanol argyfwng hinsawdd ac ecolegol ac mae angen dull newydd o weithredu sy'n sicrhau mai ffermio sy'n gyfeillgar i natur yw'r drefn arferol. Mae annog ffermwyr i gydweithio â'u gilydd i helpu i fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn yn hanfodol.

Dyna pam rwy'n croesawu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ffermio a rheoli tir yn y dyfodol i Gymru. Rwy'n cefnogi cynlluniau i hyrwyddo cynhyrchu bwyd cynaliadwy ac i wneud y defnydd gorau o arian trethdalwyr drwy ei ddefnyddio i wobrwyo ffermwyr a rheolwyr tir eraill am adfer natur a darparu nwyddau cyhoeddus i gymdeithas.

Mae'n bwysig bod y dull hwn o weithredu yn cynnwys rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt yn briodol i achub ein rhywogaethau sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf fel y gylfinir, y cwtiad aur a'r rugiar ddu. Mae gan y rhain, a rhywogaethau eraill, hawl cynhenid i fodoli ac mae poblogaethau o fywyd gwyllt sydd wedi'u hadfer hefyd yn hanfodol i greu'r ecosystemau gwydn yr ydym oll yn dibynnu arnynt.

Rwy'n cytuno ei fod yn hanfodol bod cymorth ymgynghorol parhaus ar gael i ffermwyr i'w helpu i adfer a diogelu natur i ni a chenedlaethau'r dyfodol. Mae hefyd yn bwysig bod cynlluniau yn y dyfodol yn monitro cynnydd yn effeithiol i sicrhau eu bod yn gweithio, gan gynnwys gweithio ar gyfer bywyd gwyllt ar ffermdir, ac yn darparu gwerth am arian i'r cyhoedd.

Y Cerddwyr (n= 70)

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Cynigion diwygiedig ar gyfer cefnogi ffermwyr Cymru ar ôl Brexit

Rydw i'n llwyr o blaid gwobrwyo rheolwyr tir Cymru am ddarparu nwyddau cyhoeddus gwerthfawr drwy eu tir, gan gynnwys mynediad i leoedd gwyrdd a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored.

Serch hynny, nid yw'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori yn ei gwneud hi'n glir na fydd rheolwyr tir yn derbyn cymorth ariannol oni bai eu bod yn cyrraedd y safonau lleiaf a bennir mewn cyfreithiau Hawliau Tramwy a Mynediad.

Rhaid i gydymffurfiad â'r holl ddyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â llwybrau a mynediad fod yn sylfaen ar gyfer hawl rheolwr tir i dderbyn cymorth ariannol. Mae cymorth ychwanegol ar gyfer "gwneud mwy na'r gwaith cynnal a chadw y mae'r rheoliadau'n gofyn amdano" i'w groesawu, ond rhaid i hyn fod ar gyfer gwelliannau parhaol a rhaid ei gyflawni yn ychwanegol at y dyletswyddau statudol.

Dylai'r cynllun cymorth newydd ar gyfer rheolwyr tir gydnabod:

- Cyflwr llwybrau a thir mynediad fel rhan o'r mynegiant o ddiddordeb a chamau'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm.
- Cydymffurfiad â chyfreithiau priffordd a mynediad fel amod cymhwysra gorfodol ar gyfer Taliadau Ffermio Cynaliadwy, yn enwedig o fewn y camau creu, cyflawni ac adolygu contractau.
- System fonitro sy'n cynnwys modd i'r cyhoedd roi gwybod am unrhyw fethiant i gydymffurfio â chyfreithiau hawliau tramwy a mynediad.

Dyma gyfle unigryw i sicrhau mynediad o'r radd flaenaf i'r awyr agored ac i fyd natur yng Nghymru. Gall Cymru chwarae rôl arweiniol drwy gynnig ffordd newydd ymlaen ac ailfywiogi dealltwriaeth y cyhoedd o fanteision defnyddio llwybrau a thir mynediad.

Rydw i'n annog Llywodraeth Cymru i gryfhau'r Cynllun Taliadau Ffermio Cynaliadwy fel yr amlinellwyd uchod.

Yr eiddoch yn gywir

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

